Cyllid & Tollau EM

Nodiadau Gwybodaeth Ychwanegol

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cynnwys

Incwm arall yn y DU	AiN 2
Llog o warantau gilt a gwarantau'r DU (ac elw incwm cronedig)	AiN 2
Enillion ar yswiriant bywyd	AiN 3
Difidendau stoc, dosbarthiadau anghymwysol a benthyciadau a ddilëwyd	AiN 5
Derbyniadau busnes a drethwyd fel incwm o flwyddyn gynharach	AiN 5
Cynlluniau cyfranddaliadau	AiN 6
Cynlluniau cyfranddaliadau a gymeradwywyd	AiN 7
Cynllun Annog Perchnogaeth o Gyfranddaliadau a gymeradwywyd	AiN 7
Cynllun Opsiwn Cyfranddaliadau Cwmni Awdurdodedig Cymeradwy (CSOP)	AiN 8
Cynlluniau Cyfranddaliadau mewn perthynas â chynilion a gymeradwywyd (SRS) neu Gynilo Wrth Ennill (SAYE)	AiN 9
Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI)	AiN 10
Holl opsiynau gwarantau (gan gynnwys cynlluniau a gymeradwywyd)	AiN 13
Opsiynau am warantau heb eu cymeradwyo (gan gynnwys opsiynau cyfranddaliadau)	AiN 14
Caniatáu opsiynau am warantau – materion preswylio	AiN 15
Caffael gwarantau ar ffurf buddiannau	AiN 16
Gwarantau a gaffaelwyd o'ch cyflogaeth	AiN 18
Gwarantau a gaffaelwyd: taliadau sy'n codi ar ôl eu caffael	AiN 20
Sut i gyfrifo'r Dreth Incwm	AiN 21
Incwm trethadwy penodol o warantau mewn perthynas â chyflogaeth: effaith y sail trosglwyddo o 6 Ebrill 2008	AiN 27
Cyfandaliadau, iawndal a didyniadau cyflogaeth	AiN 28
Rhyddhad treth arall	AiN 32
Lwfans Pâr Priod ar sail Oedran	AiN 36
Gwybodaeth arall	AiN 37
Colledion treth incwm	AiN 37
Taliadau treth a godir ar gynilion pensiwn a chyfandaliadau trethadwy o gynlluniau pensiwn tramor	AiN 38
Cynlluniau osgoi treth a ddatgelwyd	AiN 39

Defnyddiwch y nodiadau canlynol i'ch cynorthwyo i gwblhau'r tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol*. Efallai y bydd angen Taflenni Cymorth arnoch hefyd sy'n rhoi mwy o fanylion. Mae'r rhain ar gael drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Incwm arall y DU

Llog o warantau gilt a gwarantau'r DU (ac elw incwm cronedig)

Blychau 1 i 3

Os cewch log o:

- stociau'r llywodraeth (gwarantau gilt neu giltiau)
- bondiau, nodion y llywodraeth neu warantau tebyg a gyhoeddir gan gwmnïau'r DU, awdurdodau lleol neu gyrff yn y DU

nodwch y llog ym mlychau 1 i 3 fel y bo'n briodol.

Gallwch ddewis derbyn eich llog o stociau'r Llywodraeth (stociau gilt neu gilts) gyda threth wedi ei didynnu neu heb ei didynnu. Os bydd eich llog heb ei drethu nodwch y swm a gawsoch ym mlwch 3 a gadewch flychau 1 a 2 yn wag. Os ydy'ch llog wedi ei drethu yna chwblhewch y tri blwch.

Cynllun Incwm Cronedig

Mae gwarantau incwm cronedig yn cynnwys yr holl warantau sy'n dwyn llog gan gynnwys cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog mewn cymdeithasau adeiladu (PIBS), stoc benthyg y Llywodraeth, stoc benthyg mewn cwmni, ond nid cyfranddaliadau mewn cwmni neu dystysgrifau Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Os oes rhaid i chi wneud addasiadau Cynlluniau Incwm Cronedig i unrhyw log a gewch (nid yn unig llog gilt), nodwch y llog a'r dreth a ddidynnwyd ym mlychau 1, 2 a 3.

Bydd yn rhaid i chi gyfrifo elw neu golledion ar gyfer y gwarantau rydych wedi eu prynu, eu gwerthu neu eu trosglwyddo os oedd y taliad llog nesaf ar ôl i chi brynu neu werthu ac ati, yn disgyn rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009. Ni fydd elw na cholled ychwaith yn codi ar gyfer 2008-09 os nad oedd gwerth nominal yr holl warantau incwm cronedig a oedd yn eich meddiant ar unrhyw adeg yn 2008-09 neu 2007-08 yn uwch na £5,000. Nid yw gwarantau rydych yn eu cadw o fewn PEP neu ISA yn cyfrif tuag at y terfyn hwn.

Bydd **elw** yn codi os prynoch warantau heb log cronedig (ex-dividend) neu werthu gwarantau gyda'r llog cronedig (cum-dividend). Swm yr elw fydd yr addasiad am y llog cronedig nas derbyniwyd, hynny yw, y swm y cafodd y pris pan brynwyd ef ei ostwng (ei brynu ex-dividend) neu cynyddwyd y pris prynu (ei werthu cum-dividend)

Gwneir **colled** os prynoch warantau gyda llog cronedig (cum-dividend) neu os werthoch warantau gan gadw'r hawl i dderbyn y taliad llog nesaf (ex-dividend). Swm y golled fydd yr addasiad ar gyfer swm y llog ychwanegol a dderbyniwyd, hynny yw, y swm y cafodd y pris pan brynwyd ef ei gynyddu (ei brynu cum-dividend) neu gostyngwyd y pris prynu (ei werthu ex-dividend).

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y nodyn contract ar gyfer prynu neu werthu yn dangos swm y llog cronedig. Os nad yw'n ymddangos ar y nodyn, neu os ydych wedi derbyn neu drosglwyddo gwarantau ac eithrio drwy werthu ar y farchnad (er enghraifft, fel rhodd) yna cysylltwch â ni.

Gallwch fel arfer cyfuno'r elw a'r colledion i roi ffigur net. Pan fydd yr elw yn fwy na'r colledion, ychwanegwch y cyfanswm net at ffigur y llog ym mlwch 3. Pan fo'r colledion yn uwch na'r elw didynnwch y swm gormodol o'r llog 'gros' a dderbyniwyd o warant o'r fath a nodwch y swm llog gostyngol ym mlwch 3.

Os ydy'r canlyniad yn ffigur negyddol, nodwch '0' ym mlwch 3. Dylid cario'r golled ormodol ymlaen a'i gosod yn erbyn unrhyw elw sy'n codi yn y dyfodol. Peidiwch â newid blychau 1 a 2. Os telir llog o'ch gwarantau gilt heb ddidynnu treth, dylech ddangos yr elw a'r colledion ym mlwch 3.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Mae taflen Gymorth 343 *Accrued Income Scheme* yn esbonio'n fwy manwl sut i gyfrifo elw a cholledion incwm cronedig, pan fydd rheolau arbennig yn gymwys a sut i gael gwybodaeth bellach.

Gwarantau â chryn ddisgownt

Os byddwch yn buddsoddi yn y cynhyrchion hyn bydd yr adenillion ar eich buddsoddiad yn cynnwys disgownt, neu bremiwm i'w ad-dalu pan adbrynir y buddsoddiad. Y disgownt neu'r premiwm hwn yw'r gwahaniaeth rhwng pris y bond a'i werth pan gaiff ei adbrynu. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr p'un a oes gennych fuddsoddiadau o'r fath. Ni chaiff y disgownt neu'r premiwm ei drethu cyn i chi ei dalu, felly nodwch y gwahaniaeth rhwng yr hyn a dalwyd gennych am y bond a'r hyn a gewch pan fyddwch yn ei adbrynu neu ei werthu ym mlwch 3.

Os oes gennych stribedi gilt codir tâl ar y disgownt bob blwyddyn hyd yn oed os na fyddwch yn gwaredu'r gwarantau. Cyfrifir y tâl ar y disgownt drwy gymharu'r gwerth marchnad cyhoeddedig ar gyfer y stribedi ar 5 Ebrill 2009 gyda'r gwerth yn 2008 (neu gyda'r pris a daloch os gwnaethoch eu prynu yn ystod y flwyddyn).

Ni allwch wneud cais am golledion ar stribedi gilt. Ar gyfer gwarantau eraill â chryn ddisgownt, gallwch hawlio colled dim ond os bu'r warant yn eich meddiant ers 26 Mawrth 2003 a phryd hynny neu ar unrhyw adeg cyn y dyddiad hwnnw y cafodd ei restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig.

Enillion yswiriant bywyd

Blychau 4 i 7

Os cawsoch dystysgrif (tystysgrif 'digwyddiad trethadwy') o:
- cwmni yswiriant yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar yn y DU
- ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth a sefydlwyd gennych neu rydych yn cyfrannu iddi

yn dweud wrthych am ennill a wnaed ar ddigwyddiad trethadwy mewn perthynas â pholisi yswiriant bywyd, polisi adbryniant cyfalaf neu flwydd-dal bywyd, cwblhewch flychau 4 i 7. Os ydych yn berchen ar y polisi neu'r blwydd-dal ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil, nodwch eich hanner chi o'r ennill yn unig.

Mae'n ofynnol ar yswirwyr yn y DU yn ôl y gyfraith i roi tystysgrif os gwyddent fod ennill wedi codi. Efallai y byddwn ni hefyd wedi derbyn copi o'r dystysgrif. Heblaw am bolisïau a werthwyd neu a aseiniwyd, ar gyfer pob digwyddiad arall bydd y dystysgrif yn dangos:
- manylion y polisi
- y math o ddigwyddiad a'r dyddiad y digwyddodd ef. Os oes un dyddiad, yna gwnewch yn siŵr ei fod yn disgyn yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009. Os oes dau ddyddiad, gwnewch yn siŵr bod yr un diweddaraf yn disgyn yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009
- nifer y blynyddoedd ers i chi drefnu'r polisi, neu ers y digwyddiad diwethaf
- swm yr ennill, a
- p'un a gaiff y polisi ei drin fel petai'r dreth wedi ei thalu, ac os felly, faint.

Os cafodd y dreth ei thrin fel petai wedi ei thalu, nodwch fanylion yr enillion a nifer y blynyddoedd ym mlychau 4 a 5. Os na chafodd ei thrin fel petai wedi ei thalu, nodwch y manylion hyn ym mlychau 6 a 7.

Bydd angen Taflen Gymorth 320 *Gains on UK life insurance policies*:
- os ydych yn berchen ar y polisi gydag eraill (nid eich priod neu eich partner sifil)
- os cododd yr ennill o ganlyniad i aseiniad (gan gynnwys un a gymerodd lle fel rhan o setliad a drefnir wrth ysgaru neu wahanu)
- os rydych wedi prynu polisi cymhwysol a elwir weithiau yn 'bolisi gwaddol a fasnachir', gan drydydd parti

- os taloch bremiymau ar neu ar ôl 21 Mawrth 2007 a oedd yn fwy na £100,000 i bolisi neu bolisïau mewn blwyddyn dreth a chawsoch ad-daliad comisiwn mewn perthynas â'r premiymau hynny neu'r comisiwn ac a ail-fuddsoddwyd yn y polisi fel premiwm ychwanegol, neu
- os nad yw eich amgylchiadau wedi eu cwmpasu gan y nodiadau hyn.

Efallai y byddwch wedi gwneud ennill hyd yn oed os na fyddwch wedi cael tystysgrif. Yn yr achos hwnnw bydd angen Taflen Gymorth 320 arnoch hefyd. Er enghraifft, os:
- ydy'ch yswiriwr wedi anfon y dystysgrif at rywun arall, efallai at ymddiriedolwyr neu fenthyciwr y mae'r polisi wedi ei aseinio iddo fel gwarant ar gyfer dyled
- ydy'ch yswiriwr yn gwybod eich cyfeiriad presennol
- ydy'ch yswiriwr yn ymwybodol o newidiadau ym mherchenogaeth y polisi
- nad yw eich yswiriwr yn gwybod bod yr un a yswiriwyd wedi marw, neu
- nad yw eich yswiriwr yn gwybod eich bod wedi gwerthu neu aseinio'r cyfan neu ran o bolisi am gydnabyddiaeth.

Os oes gennych glwstwr o bolisïau tebyg gyda'r un yswiriwr, gellir cofnodi'r holl enillion a wnaed ar yr un adeg ar yr un dystysgrif. Os ydy'r yswiriwr wedi rhoi tystysgrifau ar wahân i chi ond mae'r enillion yr un fath yna gallwch eu hychwanegu at ei gilydd.

Os oes enillion yn codi o sawl polisi nad ydynt yr unfath, yna nodwch gyfanswm enillion y digwyddiad trethadwy ym mlwch 4 pan gafodd treth ei thrin fel treth a dalwyd, ac ym mlwch 6 pan na chafodd treth ei thrin fel treth a dalwyd. Peidiwch â defnyddio blychau 5 neu 7; yn lle hynny, rhowch y manylion canlynol ym mlwch 17 ar dudalen Ai 4:
- disgrifiad o bob polisi neu glwstwr
- cyfanswm yr enillion
- nifer y blynyddoedd cyflawn
- p'un a gafodd treth ei thrin fel treth a dalwyd.

Nid yw pob taliad, neu aseiniad polisïau yswiriant bywyd neu gytundebau yswiriant eraill yn achosi enillion. Os ydych wedi codi arian o bolisi yn y DU, neu os ydych wedi derbyn arian parod neu fuddiannau eraill yn dilyn marwolaeth, ad-dalu neu ildio polisi, ond nid ydych wedi derbyn tystysgrif (ac nid yw'r amgylchiadau a amlinellir uchod yn gymwys), does dim ennill yw nodi ym mlychau 4 i 7. Mae hyn yn debyg o ddigwydd pan:
- dderbynioch daliad o dan bolisi gwaddol morgais neu bolisi cynilo sy'n rhydd o dreth, gyda chymdeithas gyfeillgar sydd wedi bod mewn bodolaeth am fwy na 10 mlynedd, neu
- dderbynioch daliad o dan bolisi y talwyd premiwm unigol ac mae'r taliad a gawsoch yn llai na 5% o'r premiwm (caiff unrhyw dreth sy'n ddyledus ar y taliad ei ohirio tan i'r polisi ddod i ben), neu
- fyddwch wedi rhoi'r polisi cyfan neu ran ohono i rywun arall a heb gael unrhyw beth yn gyfnewid.

Dylid cynnwys enillion digwyddiad trethadwy ar bolisïau tramor ar dudalennau *Tramor* eich Ffurflen Dreth. Os nad ydych yn siŵr p'un a yw eich polisi yn un tramor, dylech ofyn i'ch yswiriwr. Mae Taflen Gymorth 321 yn rhoi arweiniad pellach.

Blychau 8 i 10 ***Enillion o ISA a wnaed yn ddi-rym***

Pan gaiff ISA sy'n cynnwys polisi bywyd ei wneud yn ddi-rym, er enghraifft, yn dilyn tanysgrifiad annilys, rhoddir tystysgrif digwyddiad trethadwy i chi gan reolwr yr ISA neu'r cwmni yswiriant bywyd. Defnyddiwch y dystysgrif i gwblhau blychau 8 i 10.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 11 ***Rhyddhad diffyg***

Efallai bydd y rhyddhad hwn yn ddyledus i chi os daeth polisi yswiriant bywyd, polisi adbryniant cyfalaf neu flwydd-dal bywyd i ben yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 ac:

- mae gennych un neu ragor o enillion digwyddiad trethadwy yn codi mewn blwyddyn/blynyddoedd blaenorol, oherwydd eich bod wedi codi arian yn rhannol neu wedi aseinio symiau yn rhannol, sy'n uwch na 5% o'r premiwm, ac
- rydych yn talu treth ar y gyfradd uwch.

Bydd angen Taflen Gymorth 320 neu Daflen Gymorth 321 *Gains on foreign life insurance policies* i gyfrifo'r swm, os o gwbl, i'w nodi ym mlwch 11.

Difidendau stoc, dosbarthiadau anghymwyso a benthyciadau a ddilëwyd

Blwch 12 ***Difidendau Stoc***

Os derbynioch gynnig am gyfranddaliadau, yn lle derbyn difidend ariannol, ystyrir hwn yn ddifidend stoc. Dylai'r cwmni fod wedi darparu datganiad difidend yn dangos 'swm priodol mewn arian' neu'r 'swm cyfatebol mewn arian parod o gyfalaf cyfranddaliadau' nodwch y ffigur hwn ym mlwch 12. Peidiwch â chynnwys swm y Dreth Incwm fel petai wedi ei thalu. Cysylltwch â ni os bydd angen cymorth arnoch.

Blwch 13 ***Dosbarthiadau anghymwyso a benthyciadau gan gwmni caeedig a ddilëwyd neu a rhyddhawyd***

Mae dosbarthiad anghymwyso yn cynnwys:

- dyroddiad bonws gwarantau neu gyfranddaliadau adbryn (oni bai bod y dyroddiad yn achosi dosbarthiad anghymwyso a fyddai'n cael ei gynnwys yn y blychau difidendau ar eich Ffurflen Dreth), neu
- talu dyroddiad bonws o'r fath ymlaen o'r cwmni a'i dderbyniodd.

Swm y dosbarthiad i'w gynnwys ym mlwch 13 yw:

- yn achos dyroddiad gwarant bonws, y prifswm gwarantedig yn ogystal ag unrhyw bremiwm sy'n daladwy ar adbryniant
- gwerth nominal y cyfranddaliadau adbryn yn ogystal ag unrhyw bremiwm sy'n daladwy ar adbryniant

llai unrhyw gydnabyddiaeth newydd a roddir ar gyfer y dyroddiad bonws hwnnw.

Os talwch dreth ar y gyfradd/cyfraddau uwch, bydd treth yn daladwy ar yr incwm ym mlwch 13; rhoddir credyd am y dreth ar y gyfradd gychwynnol a chaiff ei thrin fel treth a dalwyd.

Benthyciadau cwmni caeedig a ddilëir neu a ryddhawyd

Pan fydd benthyciad neu flaenswm a wnaed gan gwmni caeedig i gyfranogwr neu berson cysylltiol, yn cael ei ddileu neu ei ryddhau yn gyfan gwbl neu'n rhannol, bydd y swm a ddilëir neu a gaiff ei ryddhau yn ogystal â swm y dreth a gafodd ei thrin fel treth a dalwyd, yn cael ei ystyried fel rhan o'ch incwm. Os talwch dreth ar y gyfradd/cyfraddau uwch bydd mwy o dreth gennych i'w thalu ar yr incwm hwn. Lluoswch y swm a ryddhawyd gyda 1/9, ychwanegwch y ffigur hwnnw at y swm a ryddhawyd neu a ddilëwyd a nodwch y cyfanswm ym mlwch 13. Cysylltwch â ni os bydd angen cymorth arnoch.

Derbyniadau busnes a drethwyd fel incwm o flwyddyn gynharach

Blychau 14 a 15

Ym mlwch 14 nodwch unrhyw dderbyniadau ôl-derfynu neu dderbyniadau busnes eraill (hynny yw, a dderbyniwyd ar ôl i'ch busnes ddod i ben) i'w trethu fel incwm mewn blwyddyn gynharach. Nodwch y dyddiad hwnnw ym mlwch 15, er enghraifft 2007-08.

Cynlluniau cyfranddaliadau

Blychau 1 a 2 ***Cynlluniau cyfranddaliadau a gwarantau mewn perthynas â chyflogaeth***

Bydd y nodiadau a'r Taflenni Gwaith sy'n dilyn yn eich cynorthwyo i gyfrifo'r swm trethadwy pan fyddwch yn arfer opsiwn cyfranddaliadau neu ar gyfranddaliadau a gewch am ddim neu'n rhad yn rhinwedd eich cyflogaeth neu oherwydd digwyddiadau eraill o ran gwarantau mewn perthynas â chyflogaeth.

Bydd angen i chi gwblhau'r blychau ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau (blychau 1 a 2) dim ond:

- os nad yw eich cyflogwr wedi didynnu treth o'r swm llawn sy'n agored i dreth, neu
- os dywedodd eich cyflogwr wrthych fod y ffigur a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r swm sy'n agored i dreth TWE, yn is na'r hyn ddylai fod wedi bod. Dylech nodi'r swm sy'n agored i dreth ond sydd heb ei drethu oherwydd y gwahaniaeth hwn ym mlwch 1 ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau.

Caiff y swm sydd eisoes wedi ei drethu ei drin yn y modd a ddisgrifir isod:

- Nid ydych yn cwblhau'r blychau ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau ar gyfer symiau trethadwy pan fo eich cyflogwr wedi didynnu treth. Fel arfer bydd y symiau hyn wedi eu cynnwys yn eich P60 (neu, pan fyddwch wedi gadael eich cyflogaeth, ar eich P45) sydd wedi eu cynnwys yn y tudalennau *Cyflogaeth*.
- Os fel eithriad, cewch swm trethadwy drwy arfer opsiynau, neu swm mewn perthynas â gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar ôl i chi gael eich P45, cewch hysbysiad ar wahân o'r swm sy'n agored i dreth a'r dreth a ddidynnwyd gan eich cyflogwr. Dylid defnyddio'r symiau hyn i gwblhau'r tudalennau *Cyflogaeth*.
- Os ydych yn destun y sail trosglwyddo newydd ar gyfer incwm o warantau mewn perthynas â chyflogaeth ('securities income'), efallai y bydd eich cyflogwr wedi didynnu treth o ran o'r incwm gwarantau'n unig. Gweler y nodiadau ar y sail trosglwyddo ar dudalennau AiN 27 ac AiN 28.

Gallwn wirio'r manylion a ddefnyddir gan eich cyflogwr i gyfrifo'r swm sy'n agored i dreth a'r dreth sy'n ddyledus ac os down o hyd i wall, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

Cwblhewch Daflen Waith ar gyfer pob digwyddiad trethadwy a rhowch y cyfanswm (ac eithrio unrhyw swm a gynhwyswyd ar y tudalennau *Cyflogaeth*) ym mlwch 1. Os didynnwyd treth mewn perthynas â chaniatáu opsiwn ym mlwch 1, rhowch y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 2. Dylech gadw'r Taflenni Gwaith rhag ofn y gofynnwn i'w gweld.

Mae gwarantau mewn perthynas â chyflogaeth a gaffaeloch yn rhinwedd eich cyflogaeth, pan roddwyd cyfle gan eich cyflogwr (neu rywun sy'n gysylltiedig â'ch cyflogwr) i chi (neu berson arall) i'w caffael. Y gwarantau mwyaf cyffredin a ddarperir yw:

- cyfranddaliadau mewn corff corfforaethol (ble bynnag y'i ymgorfforwyd) neu mewn corff nas ymgorfforwyd a sefydlwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU
- dyledebion, benthyciad stoc, bondiau ac offerynnau dyled eraill.

Mae mathau eraill o warantau ac os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu cysylltwch â ni.

Gallwch gael mwy o wybodaeth i'ch cynorthwyo i gyfrifo'r swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 o'r Taflenni Gwaith a'r nodiadau fel a ganlyn:

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Caffael gwarantau fel buddiannau (gweler tudalennau AiN 16 – 18)

Mae'n rhoi arweiniad pan:
- fyddwch yn caffael gwarantau am lai na'u gwerth marchnad, neu
- fyddwch yn gwaredu'r gwarantau hyn, neu
- fydd y swm sy'n dal heb ei dalu am warantau yn cael ei rhyddhau neu ei ddileu.

Gwarantau a gaffaeloch o'ch cyflogaeth (gweler tudalennau AiN 18 a 20)

Mae'n rhoi arweiniad pan fyddwch yn derbyn gwarantau am ddim neu'n rhad yn rhinwedd eich cyflogaeth neu oddi wrth eich cyflogwr.

Gwarantau a gaffaelwyd: taliadau a godir ar ôl eu caffael (gweler tudalennau AiN 20 – 27)

Mae'n rhoi arweiniad mewn perthynas â:
- cyfranddaliadau sy'n destun risg a fforffedu, neu
- gwarantau cyfyngedig, neu
- gwarantau trosadwy sy'n dwyn hawl ar unwaith neu botensial i'w trosi i warantau â disgrifiad gwahanol, neu
- gwarantau pan fo'r gwerth marchnad yn cael ei chwyddo'n artiffisial, neu
- gwarantau pan fo'r gwerth marchnad yn cael ei ostwng yn artiffisial, neu
- gwaredu gwarantau am fwy na'u gwerth marchnad, neu
- derbyn buddiannau arbennig o warantau daliannol.

Bydd angen gwybodaeth ategol arnoch megis tystysgrifau opsiwn a hysbysiadau arfer o'r cwmni y mae'r gwarantau yn ymwneud ag ef. Efallai y gallai eich cyflogwr eich cynorthwyo hefyd.

Cynlluniau cyfranddaliadau a gymeradwywyd

Ceir tri math o gynlluniau cyfranddaliadau Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach a gymeradwyir. Os byddwch yn bodloni rhai amodau ni fyddwch yn agored i dreth pan:
- fyddwch yn prynu cyfranddaliadau
- fyddwch yn derbyn cyfranddaliadau am ddim
- ganiateir opsiwn i chi brynu cyfranddaliadau
- fyddwch yn arfer eich opsiwn i brynu cyfranddaliadau
- fydd eich cyfranddaliadau yn peidio â bod yn amodol ar Gynllun Annog Perchnogaeth o Gyfranddaliadau a gymeradwywyd.

Efallai y byddwch yn agored i dreth o hyd ar unrhyw ddifidendau a gewch ac ar unrhyw enillion cyfalaf a wnewch pan fyddwch yn gwerthu eich cyfranddaliadau.

Cynllun Annog Perchnogaeth o Gyfranddaliadau a gymeradwywyd

Byddwch yn agored i dreth (defnyddiwch Daflen Waith 1) os bydd cyfranddaliadau a brynwyd gennych neu a ddyfarnwyd i chi yn peidio â bod yn rhwym i'r cynllun o fewn pum mlynedd o gael eu prynu neu eu dyfarnu.

Bydd y swm sy'n agored i dreth incwm yn dibynnu ar ba hyd y cawsant eu cadw yn y cynllun. Os oedd y cyfranddaliadau yn y cynllun:
- am lai na tair blynedd, bydd y swm trethadwy yn hafal i'w gwerth marchnad ar y dyddiad y peidiodd y cyfranddaliadau â bod yn ddarostyngedig i'r pensiwn
- am o leiaf tair blynedd, ond llai na pum mlynedd, y swm trethadwy yw gwerth marchnad y cyfranddaliadau pan fyddant yn peidio â bod yn rhwym i'r cynllun neu, os yn is, eu gwerth marchnad ar y dyddiad y cawsant eu dyfarnu neu eu prynu ar eich cyfer.

Ar gyfer cyfranddaliadau difidend (sef cyfranddaliadau a brynwyd â difidendau sy'n codi ar gyfranddaliadau eraill o fewn y cynllun ac a ail-fuddsoddwyd yn y cynllun a gymeradwywyd) byddwch yn agored i dreth os byddant yn peidio â bod yn rhwym i'r cynllun o fewn tair blynedd o'u prynu.

Ni fyddwch yn agored i dreth os bydd eich cyfranddaliadau yn peidio â bod yn rhwym i'r cynllun oherwydd eich bod wedi gorffen gweithio am un o'r rhesymau canlynol:

- anaf neu anabledd
- colli swydd
- newid cyflogaeth o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006
- newid yn rheolaeth cwmni eich cyflogwr neu werthu'r cwmni allan o'r grŵp
- ymddeoliad ar neu ar ôl yr oed ymddeol penodedig
- marwolaeth.

Os bydd y cyfranddaliadau difidend yn peidio â bod yn rhwym i'r cynllun:
- o fewn tair blynedd o'u caffael, ac
- am reswm nad yw wedi ei restru uchod

dylid cynnwys swm y difidend a ddefnyddiwyd i brynu'r cyfranddaliadau ym mlwch 3 yn y blychau difidend ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth am y flwyddyn y gwnaethant beidio â bod yn rhan o'r cynllun.

Os ydy'r cyfranddaliadau yn rhwym i fforffediad, ni fyddant yn agored i Dreth Incwm pan fyddant wedi ei fforffedu.

Cwblhewch Daflen Waith 1 ar gyfer pob digwyddiad trethadwy.

Taflen Waith 1

Enw'r cwmni a'r cynllun cyfranddaliadau a dosbarth y cyfranddaliadau

Dyddiad y peidiodd y cyfranddaliadau â bod yn rhwym i'r cynllun	*DDMMBBBB*	
Gwerth marchnad pan beidiodd y cyfranddaliadau â bod yn rhwym i'r cynllun, neu os yn is, gwerth marchnad ar ddyddiad y'u dyfarnwyd	1	£
Nifer y cyfranddaliadau	2	
Swm trethadwy *blwch 1 x blwch 2*	3	£
Swm a drethwyd o dan TWE	4	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 3 llai blwch 4*	5	£

Cynllun Opsiwn Cyfranddaliadau Cwmni a gymeradwywyd

Ni fyddwch yn agored i dreth pan ganiateir yr opsiwn.

Ni fyddwch yn agored i dreth:
- os byddwch yn arfer yr opsiwn ar adeg pan fo'r cynllun yn parhau yn un a gymeradwywyd a rhwng tair a deng mlynedd o'r dyddiad caniatáu, neu pan fo'r cynllun yn caniatáu

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- os byddwch yn gorffen gweithio o fewn tair blynedd o'r dyddiad caniatáu ac rydych yn arfer eich opsiwn (o fewn chwe mis o'r dyddiad y gwnaethoch orffen) am un o'r rhesymau canlynol
  - anaf neu anabledd
  - colli gwaith
  - ymddeol ar neu ar ôl oed a ddynodir yn y cynllun (rhaid iddo beidio â bod yn llai na 55 oed).

Bydd arfer opsiwn o dan bob amgylchiad arall yn agored i dreth (defnyddiwch Daflen Waith 2).

Os nad ydych wedi arfer eich opsiwn ond wedi derbyn rhywbeth am ei ildio neu am beidio â'i arfer, darllenwch 'Aseinio neu ryddhau opsiwn' ar dudalen AiN 13 a chwblhewch Daflen Waith 7.

Taflen Waith 2

Enw'r cwmni a'r cynllun cyfranddaliadau a dosbarth y cyfranddaliadau/gwarantau

Nifer y cyfranddaliadau a brynwyd wrth arfer opsiwn	1	
Dyddiad caniatáu'r opsiwn *DDMMBBBB*		
Dyddiad yr arferwyd yr opsiwn *DDMMBBBB*		
Pris arfer – pris yr opsiwn ar gyfer pob gwarant	2	£
Swm a dalwyd, os o gwbl, am ganiatáu opsiwn	3	£
Gwerth marchnad pob gwarant ar ddyddiad arfer yr opsiwn	4	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd *blwch 4 x blwch 1*	5	£
Cyfanswm y pris a dalwyd *blwch 2 x blwch 1*	6	£
Elw ar arfer yr opsiwn *blwch 5 llai (blwch 6 llai blwch 3)*	7	£
CYG y Cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn	8	£
Swm trethadwy *blwch 7 llai blwch 8*	9	£
Swm a drethwyd o dan TWE	10	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 9 llai blwch 10*	11	£

Cynlluniau Cyfranddaliadau a gymeradwywyd mewn perthynas â Chynilion neu Gynilo Wrth Ennill (SAYE)

Ni fyddwch yn agored i dreth pan ganiateir opsiwn i chi.

Ni fyddwch yn agored i dreth os byddwch yn arfer eich opsiwn o fewn chwe mis o ddiwedd eich cytundeb cynilo tair blynedd, pum mlynedd neu saith mlynedd.

Byddwch yn agored i dreth dim ond os byddwch yn arfer eich opsiwn o fewn tair blynedd o ddyddiad caniatáu'r opsiwn ac mae'r cwmni rydych yn gweithio iddo yn cael ei werthu neu ei gymryd drosodd (cwblhewch Daflen Waith 3).

Os nad ydych wedi arfer eich opsiwn ond wedi derbyn rhywbeth am ei ildio neu am beidio â'i arfer, darllenwch 'Aseinio neu ryddhau opsiwn' ar dudalen AiN 13 a chwblhewch Daflen Waith 7.

Ni fydd unrhyw log neu fonws a gewch o dan y cytundeb cynilo yn agored i dreth.

Taflen Waith 3

Enw'r cwmni, y cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Dyddiad caniatáu'r opsiwn	*DDMMBBBB*	
Dyddiad arfer yr opsiwn	*DDMMBBBB*	
Nifer y gwarantau	1	
Gwerth marchnad ar ddyddiad arfer yr opsiwn	2	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd *blwch 2 x blwch 1*	3	£
Pris arfer pob opsiwn ar gyfer pob gwarant	4	£
Cyfanswm y pris a dalwyd *blwch 4 x blwch 1*	5	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 3 llai blwch 5*	6	£

Annog Rheolaeth Cwmnïau Bach (EMI)

Os ydych wedi arfer opsiwn EMI a ganiatawyd i chi am bris gostyngol, cwblhewch Daflen Waith 4 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Os oedd gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar ddyddiad arfer yr opsiwn yn llai na'r gwerth marchnad ar ddyddiad caniatáu'r opsiwn, cyfyngir y swm sy'n agored i dreth i'r gwahaniaeth rhwng y gwerth marchnad ar ddyddiad arfer yr opsiwn a'r swm a dalwyd am y cyfranddaliadau, llai unrhyw CYG y cyflogwr a daloch.

Os ydych wedi arfer opsiwn EMI mwy na 40 diwrnod ar ôl digwyddiad anghymwyso, ac mae'r cyfranddaliadau wedi codi yn eu gwerth ers y digwyddiad anghymwyso, cwblhewch Daflen Waith 5 i gyfrifo'r swm sy'n agored i dreth. Os ydy'r cofnod yn eitem 8 ar Daflen Waith 5 yn 0 peidiwch â chwblhau gweddill y Daflen Waith, does dim treth i'w thalu wrth arfer eich opsiwn.

Os ydych wedi arfer opsiwn am bris gostyngol mwy na 40 diwrnod ar ôl digwyddiad anghymwyso, cwblhewch Daflen Waith 4 (hyd at flwch 11) a 5 (hyd at flwch 6) yna defnyddiwch Daflen Waith 6 i gyfrifo'r swm sy'n agored i dreth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os nad ydych wedi arfer eich opsiwn EMI ond rydych wedi derbyn rhywbeth am ei ildio neu am beidio ag arfer eich opsiwn, darllenwch 'Aseinio neu ryddhau opsiwn' ar dudalen AiN 13.

Taflen Waith 4

Enw'r cwmni, cyfeirnod unigryw'r opsiwn a dosbarth y cyfranddaliadau

Nifer y cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar adeg arfer yr opsiwn	1	
Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar y dyddiad y caniatawyd yr opsiwn	2	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar adeg caniatáu'r opsiwn *blwch 2 x blwch 1*	3	£
Swm a dalwyd am yr opsiwn os talwyd unrhyw beth	4	£
Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar ddyddiad arfer yr opsiwn	5	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar ddyddiad arfer yr opsiwn *blwch 5 x blwch 1*	6	£
Pris arfer pob cyfranddaliad	7	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y cyfranddaliadau *blwch 7 x blwch 1*	8	£
Elw trwy gyfeirio at y gwerth marchnad ar ddiwrnod caniatáu'r opsiwn (os nad oes elw nodwch '0'), *blwch 3 llai blwch 4 llai blwch 8*	9	£
Elw trwy gyfeirio at y gwerth marchnad ar ddiwrnod arfer yr opsiwn (os nad oes elw nodwch '0'), *blwch 6 llai blwch 4 llai blwch 8*	10	£
Y lleiaf o flychau 9 a 10	11	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn	12	£
Swm trethadwy *blwch 11 llai blwch 12*	13	£
Swm a drethwyd o dan TWE	14	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 13 llai blwch 14*	15	£

Taflen Waith 5

Enw'r cwmni, cyfeirnod unigryw'r opsiwn a dosbarth y cyfranddaliadau

Nifer y cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar adeg arfer yr opsiwn	1	
Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar ddyddiad y digwyddiad anghymwyso	2	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau ar adeg y digwyddiad anghymwyso *blwch 2 x blwch 1*	3	£
Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar ddyddiad arfer yr opsiwn	4	£
Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau a brynwyd ar ddyddiad arfer yr opsiwn *blwch 4 x blwch 1*	5	£
Cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau rhwng y digwyddiad anghymwyso ac arfer yr opsiwn *blwch 5 llai blwch 3*	6	£
Swm a dalwyd am yr opsiwn os talwyd swm o gwbl	7	£
Elw trwy gyfeirio at y gwerth marchnad ar ddiwrnod arfer yr opsiwn (os nad oes elw nodwch '0'), *blwch 6 llai blwch 7*	8	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn	9	£
Swm trethadwy *blwch 8 llai blwch 9*	10	£
Swm a drethwyd o dan TWE	11	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 10 llai blwch 11*	12	£

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith 6

Elw trwy gyfeirio at arfer opsiwn am bris gostyngol *blwch 11 ar Daflen Waith 4*	1	£
Cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau rhwng y digwyddiad anghymwyso ac arfer yr opsiwn *blwch 6 ar Daflen Waith 5*	2	£
Blwch 1 + blwch 2	3	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn	4	£
Swm trethadwy *blwch 3 llai blwch 4*	5	£
Swm a drethwyd o dan TWE	6	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 5 llai blwch 6*	7	£

Pob opsiwn am warantau (gan gynnwys cynlluniau a gymeradwywyd)

Aseinio neu ryddhau opsiwn

Os derbyniwch rywbeth yn gyfnewid am aseinio, rhyddhau neu am beidio ag arfer eich opsiwn, neu am unrhyw reswm arall, bydd yn rhaid i chi dalu Treth Incwm ar yr arian neu'r gwerth a gewch, oni bai eich bod yn rhyddhau eich opsiwn yn gyfnewid am opsiwn arall. Cwblhewch Daflen Waith 7.

Os byddwch wedi eich ymrwymo mewn Dewis CYG ffurfiol i gwrdd â chyfraniadau YG y cyflogwr sy'n ddyledus wrth arfer yr opsiwn, nodwch CYG y cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn ym mlwch 5 ar Daflen Waith 7 isod. Os ydych wedi gwneud cytundeb CYG yn lle hynny, nodwch ym mlwch 5 dim ond y CYG a dalwyd gennych i'ch cyflogwr cyn 5 Mehefin 2009.

Taflen Waith 7

Enw'r cwmni a'r cynllun cyfranddaliadau neu gyfeirnod unigryw'r opsiwn a dosbarth y cyfranddaliadau

Dyddiad caniatáu'r opsiwn		*DDMMBBBB*
Swm a dderbyniwyd - arian neu werth	1	£
Swm a dalwyd am ganiatáu'r opsiwn os unrhyw beth	2	£
Swm sy'n agored i Dreth Incwm ar ganiatáu'r opsiwn os oes unrhyw beth	3	£
Ennill a wnaed mewn perthynas â'r opsiwn *blwch 1 llai blwch 2 llai blwch 3*	4	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych wrth arfer yr opsiwn	5	£
Swm trethadwy *blwch 4 llai blwch 5*	6	£

Swm a drethwyd o dan TWE	7	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 6 llai blwch 7*	8	£

Opsiynau am warantau nas cymeradwywyd (gan gynnwys opsiynau am gyfranddaliadau)

Os na chaniatawyd yr opsiwn o dan gynllun a gymeradwywyd gennym ni, ac nid oedd yn opsiwn EMI cymhwysol, gallech fod yn agored i dreth wrth arfer yr opsiwn.

Arfer opsiwn am warantau

Cewch eich trethu ar y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad y gwarantau pan wnaethoch arfer yr opsiwn ar swm a daloch am y gwarantau (gan gynnwys cost yr opsiwn, os oedd unrhyw beth). Cwblhewch Daflen Waith 8. Os nad oes rhaid i chi arfer yr opsiwn i gaffael y gwarantau (oherwydd bod yr opsiwn yn cael ei arfer yn awtomatig drwy dreigl amser neu oherwydd bod amodau eraill yn cael eu bodloni) bydd yn rhaid i chi gwblhau Taflen Waith 8 o hyd, fel petaech chi wedi arfer yr opsiwn.

Os ydych wedi eich ymrwymo mewn Dewis CYG ffurfiol i dalu cyfraniadau YG y cyflogwr sy'n ddyledus wrth arfer yr opsiwn, nodwch CYG y cyflogwr a dalwyd gennych ym mlwch 9 ar Daflen Waith 8. Os ydych wedi gwneud cytundeb CYG yn lle hynny, nodwch ym mlwch 9 dim ond y CYG a dalwyd gennych i'ch cyflogwr cyn 5 Mehefin 2009.

Taflen Waith 8

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Dyddiad caniatáu'r opsiwn	*DDMMBBBB*	
Dyddiad arfer yr opsiwn	*DDMMBBBB*	
Gwerth marchnad y gwarantau ar ddyddiad arfer yr opsiwn	1	£
Nifer y gwarantau	2	
Cyfanswm gwerth marchnad y gwarantau *blwch 1 x blwch 2*	3	£
Pris arfer pob opsiwn ar gyfer pob gwarant	4	£
Cyfanswm y pris a dalwyd am y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth *blwch 4 x blwch 2*	5	£
Swm a dalwyd am ganiatáu'r opsiwn, os unrhyw beth	6	£
Swm sy'n agored i Dreth Incwm ar ganiatáu'r opsiwn, os unrhyw beth	7	£
Ennill a wnaed wrth arfer yr opsiwn *blwch 3 llai (blychau 5 + 6 + 7)*	8	£
CYG y cyflogwr a dalwyd gennych	9	£

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Swm trethadwy *blwch 8 llai blwch 9*	10	£
Swm a drethwyd o dan TWE	11	£
TSwm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 10 llai blwch 11*	12	£

Caniatáu opsiwn am warantau – materion preswylio

Os caniatawyd opsiwn i chi ond ni chewch eich trethu yn y DU ar eich holl incwm o gyflogaeth efallai y cewch eich trethu pan ganiateir yr opsiwn oherwydd:

- eich statws preswyl, ac
- y lle y gwnaethoch ymgymryd â dyletswyddau eich cyflogaeth.

Yn yr amgylchiadau hyn dylech gwblhau Taflen Waith 9.

Taflen Waith 9

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarant a dosbarth y cyfranddaliad

Dyddiad caniatáu'r opsiwn		*DDMMBBBB*
Gwerth marchnad y warant	1	£
Pris opsiwn y warant	2	£
Disgownt ar gyfer pob gwarant *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y gwarantau	4	
Gwerth yr opsiwn* *blwch 3 x blwch 4*	5	£
Swm a dalwyd gennych am ganiatáu'r opsiwn, os unrhyw beth	6	£
Swm trethadwy *blwch 5 llai blwch 6*	7	£
Swm a drethwyd o dan TWE	8	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 7 llai blwch 8*	9	£

*Dyma'r gwerth isaf posibl - os credwch fod y gwerth yn uwch, nodwch eich ffigur

Treth a ddidynnwyd o flwch 1

Os taloch Dreth Incwm mewn cysylltiad â chaniatáu opsiwn, efallai y gallech ddidynnu'r dreth a dalwyd ym mlwch 2 ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau.

Gall y dreth a delir, ostwng swm y dreth i'w thalu ar yr incwm ym mlwch 1. Ni all y dreth ym mlwch 2 fod yn uwch na'r dreth sy'n ddyledus ar y swm trethadwy a gynhwyswyd ym mlwch 1 (blwch 9 ar Daflen Waith 9).

Caffael gwarantau fel buddiannau

Cewch eich trethu ar y budd sy'n codi:

- os caffaelwch warantau mewn cysylltiad â chyflogaeth neu fuddiant mewn gwarantau (gallai hyn gynnwys gwarantau a gaffaelwyd drwy arfer opsiwn a ganiatawyd mewn blwyddyn pan nad oeddech yn preswylio, p'un ag oeddech yn preswylio neu fel arfer yn preswylio neu'n preswylio ond ddim fel arfer yn preswylio yn y DU), ac
- os oedd y pris a dalwyd gennych pan wnaethoch eu caffael yn llai nag oedd eu gwerth nhw (neu warantau a dalwyd yn llawn o'r un dosbarth) ar yr adeg honno, ac
- os nad yw'r budd a geir drwy gaffael y gwarantau yn rhad ac am ddim, fel arall yn drethadwy.

Cyfrifir y budd trethadwy drwy drin y gwerth is, y gwnaethoch gaffael eich cyfranddaliadau/gwarantau, fel petai'n fenthyciad di-log gan eich cyflogwr.

Dylai eich cyflogwr fod wedi cyfrifo'r budd trethadwy a chynnwys manylion ar ffurflen P11D fel 'Benthyciadau di-log a rhai a llog isel'. Yn yr achos hwnnw caiff y swm trethadwy ei gynnwys yn y swm a nodwyd gennych ym mlwch 15 ar y dudalen *Cyflogaeth*.

Pan fo eich cyflogwr heb wneud hyn, gallwch ddefnyddio Taflen Waith 10 i gyfrifo'r swm trethadwy. Ond os ydy'r swm ym mlwch 5 ar y Daflen Waith hon, ynghyd â'r holl fenthyciadau eraill (tybiannol neu wirioneddol) a gafwyd yn rhinwedd eich cyflogaeth, yn fwy na £5,000 ar unrhyw adeg yn y flwyddyn dreth, ni fydd budd yn codi ac nid oes rhaid i chi barhau i gwblhau'r Daflen Waith.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith 10

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad gwarant a dalwyd yn llawn pan wnaethoch gaffael eich gwarantau	1	£
Swm a dalwyd gennych am bob gwarant pan wnaethoch eu caffael	2	£
Tan brisiad pob gwarant *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y gwarantau	4	
Tan brisiad/benthyciad tybiannol gwreiddiol *blwch 3 x blwch 4*	5	£
Os caffaelwyd gwarantau cyn 6 Ebrill 2008, cyfanswm unrhyw swm ychwanegol a dalwyd amdanynt cyn 6 Ebrill 2008	6	£
Benthyciad tybiannol ar 6 Ebrill 2008 (neu'r dyddiad y caffaelwyd y gwarantau, os yn hwyrach) *blwch 5 llai blwch 6*	7	£
Cyfanswm unrhyw symiau ychwanegol a dalwyd yn ystod y flwyddyn (2008-09)	8	£
Benthyciad tybiannol ar 5 Ebrill 2009 (neu'r dyddiad y gwerthwyd y gwarantau, os yn gynharach) *blwch 7 llai blwch 8*	9	£
Swm cyfartalog y benthyciad tybiannol *(blwch 7 + blwch 9) wedi'i rannu â 2*	10	£
Cyfradd swyddogol y llog (%)	11	
Llog am y flwyddyn gyfan *blwch 10 x blwch 11*	12	£
Nifer y misoedd treth llawn (6ed o'r mis tan y 5ed o'r mis dilynol) y bu'r benthyciad mewn bodolaeth yn ystod y flwyddyn dreth	13	
Swm trethadwy (cyfwerth mewn arian) i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 12 x (blwch 13 wedi'i rannu â 12)*	14	£

Mae darpariaethau ar gyfer rhyddhad am log a delir ar rai benthyciadau penodol ar gael ar gyfer caffael cyfranddaliadau mewn cwmnïau. Mae gwybodaeth bellach ar gael o **www.hmrc.gov.uk**. Os gallwch gael rhyddhad y swm trethadwy uchod bydd swm y rhyddhad hwnnw hefyd.

Gwarantau a werthwyd neu a drosglwyddwyd

Cewch eich trethu ar y budd fydd yn codi:

- os gwerthwch neu os trosglwyddwch eich gwarantau ac mae'r cyfanswm a dalwyd gennych am y gwarantau hynny (neu warantau a dalwyd amdanynt yn llawn o'r un disgrifiad) yn llai na'u gwerth pan wnaethoch eu caffael, neu
- os bydd y swm sy'n dal heb ei dalu neu a dalwyd yn rhannol am y gwarantau yn cael ei rhyddhau neu ei ddileu.

Dylai eich cyflogwr ddweud wrthych faint yw'r swm trethadwy a'r dreth a ddidynnwyd, os yn berthnasol. Pan fydd gennych dreth (ychwanegol) i'w thalu cwblhewch Daflen Waith 11 i gyfrifo'r swm fydd yn rhaid ei gynnwys ym mlwch 1.

Taflen Waith 11

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad gwarant a dalwyd yn llawn pan wnaethoch gaffael eich gwarantau	1	£
Swm a dalwyd gennych am bob gwarant pan wnaethoch eu caffael	2	£
Tan brisiad pob gwarant *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y gwarantau	4	
Benthyciad tybiannol *blwch 3 x blwch 4*	5	£
Cyfanswm unrhyw symiau ychwanegol a dalwyd am y gwarantau cyn i chi eu gwerthu neu eu trosglwyddo neu orffen bod yn orfodol arnoch dalu unrhyw swm o'r tan brisiad	6	£
Swm trethadwy (cyfwerth mewn arian) i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 5 llai blwch 6*	7	£

Gwarantau a gaffaelwyd drwy eich cyflogaeth

Cewch eich trethu ar warantau (neu fuddiant mewn gwarantau) a gewch am ddim neu'n rhad naill ai yn rhinwedd eich cyflogaeth neu oddi wrth eich cyflogwr (neu berson sy'n gysylltiedig â'ch cyflogwr).

Gwarantau am ddim neu'n rhad

Os caffaelwch warantau o'ch cyflogaeth ac roedd y pris a daloch amdanynt yn llai na'u gwerth ar yr adeg honno, cewch eich trethu ar y gwahaniaeth rhwng gwerth y gwarantau a'r pris a daloch amdanynt. Dylai eich cyflogwr ddweud wrthych y swm trethadwy a swm unrhyw dreth a ddidynnwyd a gynhwyswyd ar eich P60 neu ar eich P45, os gadewch ar ôl y digwyddiad. Does dim rhaid i chi gwblhau'r blychau ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau oherwydd caiff y symiau hyn eu cynnwys ym mlychau 1 a 2 y dudalen *Cyflogaeth*. Pan fydd gennych dreth ychwanegol i'w thalu defnyddiwch Daflen Waith 12 i gyfrifo'r swm trethadwy i'w gynnwys ym mlwch 1.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cynlluniau cymell perchnogaeth o gyfranddaliadau/gwarantau

O dan yr cynlluniau hyn efallai addewir neu dyrannir nifer o warantau i chi ond ni chewch y gwarantau tan fydd rhai amodau penodol wedi eu bodloni. Yn yr achosion hyn fe'ch trethir pan fodlonir yr amodau a chaffaelwch y gwarantau. Dylai eich cyflogwr ddweud wrthych y swm trethadwy a swm unrhyw dreth a ddidynnwyd a gynhwyswyd ar eich P60 neu ar eich P45, os gadewch ar ôl y digwyddiad. Does dim rhaid i chi gwblhau'r blychau ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau oherwydd caiff y symiau hyn eu cynnwys ym mlychau 1 a 2 y dudalen *Cyflogaeth*. Pan fydd gennych dreth ychwanegol i'w thalu defnyddiwch Daflen Waith 12 i gyfrifo'r swm trethadwy i'w gynnwys ym mlwch 1.

Gwarantau cyfyngedig

Pan fydd y gwarantau a gaffaelir wedi eu cyfyngu mewn rhyw fodd, gallai gwerth marchnad y gwarantau hynny fod yn llai na gwerth gwarantau tebyg nas cyfyngwyd. Os byddwch chi a'ch cyflogwr wedi dewis ar y cyd i anwybyddu rhai o'r cyfyngiadau hynny neu'r holl gyfyngiadau, dylai'r gwerth marchnad ar gyfer blwch 1 ar Daflen Waith 12 adlewyrchu gwerth y gwarantau heb ei gyfyngu (i'r graddau eich bod wedi dewis anwybyddu'r cyfyngiadau hynny).

Gwarantau trosadwy

Pan gaffaelir gwarantau, a gellir arnewid y gwarantau hynny i warantau gyda disgrifiad gwahanol, dylai'r gwerth marchnad ar gyfer blwch 1 ar Daflen Waith 12 adlewyrchu gwerth marchnad y gwarantau hynny fel na petai'n bosibl eu harnewid.

Taflen Waith 12

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad ar gyfer pob gwarant	1	£
Nifer y gwarantau	2	
Cyfanswm gwerth marchnad y gwarantau a brynwyd *blwch 1 x blwch 2*	3	£
Swm a dalwyd am bob gwarant, os unrhyw beth	4	£
Cyfanswm yr hyn a dalwyd am warantau *blwch 2 x blwch 4*	5	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 3 llai blwch 5*	6	£

Gwarantau sydd â'u gwerth marchnad wedi eu gostwng yn artiffisial

Gall Treth Incwm fod yn ddyledus pan gaffaelir gwarantau pan fo gwerth marchnad gwarantau sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth wedi'i ostwng gan o leiaf 10% ar adeg eu caffael. Ni fydd y dreth ychwanegol yn daladwy pan fydd y cyfranddaliadau a gaffaelir yn rhwym wrth risg fforffedu sy'n para pum mlynedd neu lai ac nid ydych ynghyd â'ch cyflogwr wedi dewis talu treth ar adeg eu caffael.

Dylai eich cyflogwr ddweud wrthych y swm trethadwy a swm unrhyw dreth a ddidynnwyd a gynhwyswyd ar eich P60 neu ar eich P45, os gadewch ar ôl y digwyddiad. Does dim rhaid i chi gwblhau'r blychau ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau oherwydd caiff y symiau hyn eu cynnwys ym mlychau 1 a 2 y dudalen *Cyflogaeth*. Pan fydd gennych dreth ychwanegol i'w thalu defnyddiwch Daflen Waith 13 i gyfrifo'r swm trethadwy i'w gynnwys ym mlwch 1.

Taflen Waith 13

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad heb ei ostwng ar gyfer pob gwarant. *Pan fydd y gwarantau a gaffaelwyd yn warantau cyfyngedig, dylai'r gwerth marchnad heb ei ostwng, ym mlwch 1 gael ei benderfynu fel petai'r gwarantau yn rhai nas cyfyngwyd*	1	£
Gwerth marchnad gostyngol pob gwarant, neu os yn fwy, swm y gydnabyddiaeth a roddwyd ar gyfer caffael y gwarantau	2	£
Gostyngiad trethadwy ar gyfer pob gwarant *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y gwarantau	4	
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 3 x blwch 4*	5	£

Gwarantau a gaffaelwyd: newidiadau ar ôl eu caffael

Os caffaeloch warantau mewn cysylltiad â chyflogaeth neu fuddiant mewn gwarantau o'r fath ac nid drwy gynnig cyffredinol i'r cyhoedd gellir eich trethu ar:

- cyfran o werth y gwarantau ar ôl i chi eu caffael
- gydnabyddiaeth a dderbynnir mewn cysylltiad â'r gwarantau
- unrhyw fuddiannau arbennig a gewch yn rhinwedd eich perchenogaeth o'r gwarantau
- enillion sy'n codi mewn cysylltiad â gwarantau trosadwy.

Mae hyn yn ychwanegol at y Dreth Incwm sy'n ddyledus pan gaffaelwyd nhw yn gyntaf.

Gwarantau cyfyngedig a gaffaelwyd ar neu ar ôl 16 Ebrill 2003

Pan gaffaelwyd gwarantau cyfyngedig ar neu ar ôl 16 Ebrill 2003, bydd Treth Incwm yn ddyledus bob tro y bydd digwyddiad trethadwy mewn perthynas â'r gwarantau hynny. Dylai eich cyflogwr fod yn gallu dweud wrthych p'un a fu digwyddiad trethadwy neu p'un a yw'r gwarantau'n gymwys am ryddhad. Os dewisoch ynghyd â'ch cyflogwr i dalu Treth Incwm ar yr adeg pan wnaethoch gaffael y gwarantau, fel petai'r gwarantau yn rhai heb eu cyfyngu, ni fydd Treth Incwm ychwanegol i'w thalu.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Sut i gyfrifo'r Dreth Incwm

Er mwyn cyfrifo'r dreth sy'n ddyledus drwy ddefnyddio cyfrifiannell sydd ynghlwm â thaenlen anfonwch e-bost at y tîm Cynlluniau Cyfranddaliadau yn **shareschemes@hmrc.gsi.gov.uk** neu gallwch gyfrifo'r swm trethadwy trwy ddefnyddio'r fformiwla hon:

swm trethadwy = UMV x (IUP llai PCP llai OP) llai CE

pan fo

UMV = gwerth marchnad nas cyfyngwyd – unrestricted market value
IUP = cyfran gychwynnol nas codwyd tâl arno – initial uncharged proportion
PCP = cyfran y codwyd tâl yn flaenorol – previously charged proportion
OP = cyfran sydd ar ôl – outstanding proportion
CE = cydnabyddiaeth a roddwyd a threuliau a dalwyd – consideration given and expenses incurred.

Mae Taflenni Gwaith 14 a 15 ar dudalennau AiN 21 a AiN 22 yn eich cynorthwyo i gyfrifo'r swm trethadwy. Defnyddiwch Daflen Waith 14 ar gyfer y digwyddiad trethadwy cyntaf sy'n codi ar ôl y caffaeliad pan fo'r digwyddiad trethadwy'n digwydd wrth werthu'r gwarantau neu os nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ôl i'w codi, Defnyddiwch Daflen Waith 15 ym mhob achos arall.

Os caffaelwch cyfranddaliadau cyfyngedig cyn 16 Ebrill 2003, cysylltwch â'r Tîm Cynlluniau Cyfranddaliadau.

Taflen Waith 14

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Cam 1 – Gwerth marchnad nas cyfyngwyd (UMV)

Gwerth marchnad nas cyfyngwyd o'r gwarantau yn union ar ôl y digwyddiad trethadwy	1	£

Cam 2 – Cyfran gychwynnol nas codwyd tâl arno (IUP)

Gwerth marchnad nas cyfyngwyd o'r gwarantau wrth eu caffael	2	£
Swm unrhyw gydnabyddiaeth a roddwyd i gaffael y gwarantau	3	£
Unrhyw swm y codir treth arno pan gaiff y gwarantau eu caffael	4	£
UMV llai symiau didynadwy *blwch 2 llai blwch 3 llai blwch 4*	5	£
IUP *blwch 5 wedi'i rannu â blwch 1. Os ydy'r cofnod ym mlwch 6 yn 'dim', neu'n ffigur minws, bydd dim incwm trethadwy yn codi o'r digwyddiad trethadwy hwn.*	6	£

Cam 3 – Swm trethadwy

UMV X IUP *blwch 1 x blwch 6*	7	£
Cyfanswm y treuliau a dalwyd ac unrhyw swm a dalwyd i godi neu amrywio'r cyfyngiad (CE)	8	£

Swm trethadwy *blwch 7 llai blwch 8*

9 £

Cam 4 – Swm trethadwy

Cwblhewch y cam hwn dim ond os mai gwerthu'r gwarantau yw'r digwyddiad trethadwy, ac mae'r gydnabyddiaeth a gafwyd yn llai na gwerth marchnad y gwarantau yn union ar ôl y gwerthiant

Cyfanswm gwerth y gydnabyddiaeth a roddwyd am y gwerthiant

10 £

Gwerth marchnad gwirioneddol y gwarantau ar ôl y gwerthiant

11 £

Swm trethadwy *blwch 9 x blwch 10 wedi'i rannu â blwch 11*

12 £

Swm trethadwy (blwch 9 neu flwch 12) i'w nodi ym mlwch 1

Taflen Waith 15

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Cam 1 – Gwerth marchnad nas cyfyngwyd (UMV)

Gwerth marchnad y gwarantau nas cyfyngwyd yn union ar ôl y digwyddiad trethadwy

1 £

Cam 2 – cyfran gychwynnol nas codwyd tâl arno (IUP)

Gwerth marchnad y gwarantau nas cyfyngwyd wrth eu caffael

2 £

Swm unrhyw gydnabyddiaeth a roddwyd i gaffael y gwarantau

3 £

Unrhyw swm y codir treth arno pan gaiff y gwarantau eu caffael

4 £

UMV llai symiau didynadwy *blwch 2 llai blwch 3 llai blwch 4*

5 £

IUP *blwch 5 wedi'i rannu â blwch 1. Os ydy'r cofnod ym mlwch 6 yn 'dim', neu'n ffigur minws, bydd dim incwm trethadwy yn codi o'r digwyddiad trethadwy hwn.*

6 £

Cam 3 – Cyfran sydd ar ôl (OP)

Defnyddiwch y Cam hwn os bydd unrhyw gyfyngiadau yn parhau ar ôl y digwyddiad trethadwy hwn

Gwerth marchnad gwirioneddol y gwarantau yn union ar ôl y digwyddiad trethadwy

7 £

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

OP *(blwch 1 llai blwch 7) wedi'i rannu â blwch 1*	8	£
Cam 4 – Cyfran y codwyd tâl yn flaenorol (PCP)		
Pa ddigwyddiad trethadwy yw hwn ers i chi gaffael y gwarantau? • Mae'r PCP yn 'dim' ar gyfer y digwyddiad trethadwy cyntaf. • Ar gyfer yr ail, y PCP yw gwerth blwch 9 o'r Daflen Waith ar gyfer y digwyddiad trethadwy mewn perthynas â'r gwarantau hyn. • Ar gyfer digwyddiadau trethadwy dilynol, y PCP yw cyfanswm y ffigurau ym mlwch 10 ar gyfer pob digwyddiad trethadwy mewn perthynas â'r gwarantau hyn.		
Cyfran y codwyd tâl yn flaenorol	9	£
Cam 5 – Swm trethadwy		
Defnyddiwch y Cam hwn a gwiriwch Gam 6 isod IUP llai PCP llai OP *blwch 6 llai blwch 9 llai blwch 8*	10	£
Blwch 1 x blwch 10	11	£
Cyfanswm y treuliau a dalwyd ac unrhyw swm a dalwyd i godi neu amrywio'r cyfyngiad (CE)	12	£
Swm trethadwy *blwch 11 llai blwch 12*	13	£
Cam 6 – Swm trethadwy		
Cwblhewch y cam hwn dim ond os mai gwerthu'r gwarantau yw'r digwyddiad trethadwy, ac mae'r gydnabyddiaeth a gafwyd yn llai na gwerth marchnad y gwarantau yn union ar ôl y gwerthiant Cyfanswm gwerth y gydnabyddiaeth a roddwyd am y gwerthiant	14	£
Gwerth marchnad gwirioneddol y gwarantau ar ôl y gwerthiant	15	£
Swm trethadwy *blwch 13 x blwch 14 wedi'i rannu â blwch 15*	16	£
Swm trethadwy (blwch 13 neu flwch 16) i'w nodi ym mlwch 1		

Gwarantau trosadwy

Os gwnaethoch gaffael gwarantau mewn perthynas â'ch cyflogaeth sy'n dwyn hawl ar unwaith neu hawl potensial i'w harnewid i warantau gyda disgrifiad gwahanol, bydd Treth Incwm yn ddyledus pan fydd digwyddiad trethadwy yn codi o'r 6ed o Ebrill 2008. Bydd tâl treth yn codi bob tro y bydd digwyddiad trethadwy.

Dylai eich cyflogwr fod yn gallu dweud wrthych p'un a fu digwyddiad trethadwy neu p'un a yw'r gwarantau yn gymwys am ryddhad.

Defnyddiwch Daflenni Gwaith 16, 17 neu 18 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 16

Arnewid gwarantau trosadwy

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad pob gwarant newydd ar ôl arnewid	1	£
Gwerth marchnad pob gwarant wrth ei arnewid fel petai'r warant yn methu â chael ei harnewid	2	£
Ennill ar bob gwarant *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y gwarantau	4	
Cyfanswm yr enillion *blwch 3 x blwch 4*	5	£
Symiau didynadwy		
Cydnabyddiaeth a dalwyd am yr hawl i arnewid y gwarantau*	6	£
Cyfanswm y gydnabyddiaeth a dalwyd am arnewid gwirioneddol y gwarantau	7	£
Cyfanswm y treuliau a dalwyd mewn cysylltiad â'r arnewid	8	£
Cyfanswm sy'n ddidynadwy *blwch 6 + blwch 7 + blwch 8*	9	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 5 llai blwch 9*	10	£

* Dyma'r swm gormodol a dalwyd am y gwarantau a gwerth marchnad y gwarantau trosadwy pan gawsant eu caffael, gan anwybyddu'r hawl i arnewid

Taflen Waith 17

Gwaredu gwarantau trosadwy

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Swm y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd wrth waredu	1	£
Gwerth marchnad pob gwarant wrth waredu fel petai'r warant yn methu â chael ei harnewid	2	£
Nifer y gwarantau a waredwyd	3	
Cyfanswm gwerth marchnad y gwarantau a waredwyd *blwch 2 x blwch 3*	4	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 1 llai blwch 4*	5	£

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith 18

Derbyn cydnabyddiaeth am ryddhad, neu mewn cysylltiad â hawl arnewid

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Swm y gydnabyddiaeth neu werth y budd a gafwyd am bob gwarant	1	£
Nifer y gwarantau yr effeithiwyd arnynt	2	
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 1 x blwch 2*	3	£

Gwarantau â gwerth marchnad â gynyddwyd yn artiffisial

Gall Treth Incwm godi pan fo gwerth marchnad y gwarantau sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth yn cynyddu gan fwy na 10% ar y dyddiad perthnasol drwy weithredoedd nad ydynt yn rhai masnachol (rhywbeth a wneir heblaw am reswm masnachol dilys). Bydd y dyddiad perthnasol naill ai:

- 5 Ebrill 2009, neu
- y dyddiad y gwnaethoch waredu'r gwarantau, os yn gynt.

Defnyddiwch Daflen Waith 19 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 19

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar ddiwedd y dyddiad perthnasol	1	£
Gwerth marchnad pob cyfranddaliad ar yr un dyddiad gan anwybyddu effeithiau cynnydd artiffisial	2	£
Cynnydd ym mhob cyfranddaliad *blwch 1 llai blwch 2*	3	£
Nifer y cyfranddaliadau	4	
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 3 x blwch 4*	5	£

Gwarantau â gwerth marchnad a ostyngwyd yn artiffisial

Ar ôl i chi gaffael eich gwarantau gallai Treth Incwm ychwanegol fod yn ddyledus pan fo gwerth marchnad eich gwarantau wedi ei ostwng gan fwy na 10% drwy weithredoedd nad ydynt yn rhai masnachol, rhywbeth a wneir heblaw am reswm masnachol dilys, (ei ostwng yn artiffisial).

Gwarantau cyfyngedig

Pan gaffaelwyd y gwarantau cyfyngedig ar neu ar ôl 16 Ebrill 2003 gall Treth Incwm fod yn ddyledus os cafodd gwerth marchnad eich gwarantau ei ostwng yn artiffisial o fewn y cyfnod o saith mlynedd sy'n dod i ben ar y dyddiad perthnasol.

Bydd y dyddiad perthnasol naill ai:
- 5 Ebrill 2009, neu
- dyddiad y digwyddiad trethadwy, os yn gynt.

Cwblhewch Daflenni Gwaith 14 neu 15 gan nodi ym mlwch 1 gwerth marchnad y gwarantau heb ei gyfyngu ar y dyddiad perthnasol gan anwybyddu effaith y gostyngiad artiffisial i gyfrifo'r swm trethadwy.

Gwarantau sy'n dwyn risg fforffedu

Dylid trin gwarantau sy'n dwyn risg fforffedu a gaffaelwyd ar neu ar ôl 16 Ebrill 2003 yn yr un modd a gwarantau cyfyngedig (gweler uchod) pan fo gostyngiad artiffisial yn ystod y cyfnod o saith mlynedd sy'n dod i ben ar y dyddiad y caffaelwyd y gwarantau.

Gwarantau trosadwy

Gall Treth Incwm ychwanegol fod yn ddyledus os cafodd gwerth marchnad eich gwarantau ei ostwng gan fwy na 10% o fewn y cyfnod o saith mlynedd sy'n dod i ben ar ddyddiad y digwyddiad trethadwy.

Cwblhewch Daflen Waith 16 gan nodi ym mlwch 1 gwerth marchnad y gwarantau ar ddyddiad y digwyddiad trethadwy gan anwybyddu'r gostyngiad artiffisial yn eu gwerth. Pan fyddwch wedi rhoi cydnabyddiaeth am yr hawl i arnewid y gwarantau, y didyniad caniataol ym mlwch 6 yw'r gydnabyddiaeth ormodol a roddwyd a gwerth marchnad y gwarantau na ellir eu harnewid pan gawsant eu caffael gan anwybyddu'r gostyngiad artiffisial yn y gwerth marchnad.

Cydnabyddiaeth neu fuddiannau a gafwyd

Pan ostyngwyd yn artiffisial unrhyw gydnabyddiaeth neu fuddiannau a gafwyd o fewn y cyfnod o saith mlynedd sy'n dod i ben pan dderbynnir y gydnabyddiaeth neu'r buddiannau, cwblhewch y Taflenni Gwaith canlynol gan gofnodi'r gydnabyddiaeth neu'r buddiannau a gafwyd yn y blychau a ddangosir gan anwybyddu'r gostyngiad artiffisial:
- gwaredu gwarantau cyfyngedig – blwch 1, Taflen Waith 14 neu 15
- gwaredu gwarantau trosadwy – blwch 1, Taflen Waith 17
- rhyddhau neu fel arall mewn cysylltiad â arnewid hawliau – blwch 1, Taflen Waith 18
- gwaredu gwarantau am fwy na'r gwerth marchnad – blwch 1, Taflen Waith 20
- buddiannau arbennig – blwch 1, Taflen Waith 21.

Gwarantau a waredwyd am fwy na'u gwerth marchnad

Mae Treth Incwm yn ddyledus pan fyddwch chi neu berson sy'n gysylltiedig â chi yn gwaredu eich gwarantau fel na fydd gennych unrhyw hawl pellach iddynt ac mae'r gydnabyddiaeth a gewch yn fwy na'r gwerth marchnad ar adeg y gwaredu.

Cwblhewch Daflen Waith 20 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith 20

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Cydnabyddiaeth a roddir wrth waredu	1	£
Gwerth marchnad y gwarantau ar adeg eu gwaredu	2	£
Treuliau a dalwyd mewn cysylltiad â'r gwaredu	3	£
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 1 llai (blwch 2 + blwch 3)*	4	£

Buddiannau arbennig sy'n cronni i ddeiliaid gwarantau

Mae Treth Incwm yn ddyledus ar werth unrhyw fuddiannau a gawsoch chi neu berson sy'n gysylltiedig â chi oherwydd eich perchnogaeth o warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar yr adeg y'u cawsoch. Os trethir y buddiannau mewn man arall ni fydd yn rhaid i chi dalu treth unwaith eto.

Cwblhewch Daflen Waith 21 i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith 21

Enw'r cwmni a'r cynllun gwarantau a dosbarth y gwarantau

Gwerth y budd arbennig ar gyfer pob gwarant	1	£
Nifer y gwarantau	2	
Swm trethadwy i'w nodi ym mlwch 1 *blwch 1 x blwch 2*	3	£

Incwm penodol sy'n agored i dreth o warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth: effaith y sail trosglwyddo o 6 Ebrill 2008

Mae rheolau newydd yn bodoli mewn perthynas â'r sail trosglwyddo ar gyfer yr unigolion hynny sy'n preswylio yn y DU ond sydd naill ai ddim yn preswylio fel arfer neu pan nad yw eu domisil yn y DU. Mae'r rheolau newydd yn ymwneud â gwarantau ac opsiynau am warantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a gaffaelwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008. Mae'r nodiadau hyn yn rhoi manylion ynglŷn â'r ffordd y caiff gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eu trethu o'r dyddiad hwn. **Mae'r rheolau newydd yn gymhleth a dylech gyfeirio at y nodiadau ar gyfer *Preswyl, sail trosglwyddo ac ati* ac adran Ryngwladol ein Llawlyfr Employment-Related Securities Manual (ERMS) yn www.hmrc.gov.uk**

Y sail trosglwyddo ar gyfer gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Pan fydd swm sy'n agored i dreth yn codi o dan yr amgylchiadau a gynhwyswyd ar dudalennau AiN 13 i 27 ac rydych yn agored i'r sail trosglwyddo, gallai rhan o'r swm fod yn 'incwm gwarantau tramor'. Ni ddylid cynnwys incwm gwarantau tramor fel rhan o'r swm trethadwy oni bai ei fod wedi ei drosglwyddo i'r DU yn y flwyddyn. Ceir arweiniad yn adran Ryngwladol y Llawlyfr Employment-Related Securities Manual (ERMS) ynglŷn â'r amgylchiadau pan gaiff incwm gwarantau tramor ei drin fel petai wedi ei drosglwyddo i'r DU.

Ceir esboniad ynglŷn â chyfrifo yr hyn a ystyrir yn incwm gwarantau tramor yn adran Ryngwladol yr ERMS hefyd.

Os oedd gan eich cyflogwr ddigon o wybodaeth i wneud hynny, mae'n bosib y gallai ef fod wedi cyfrifo'r incwm gwarantau tramor a didynnu hwn o'r swm sydd i'w drethu o dan TWE ac i'w gynnwys fel swm trethadwy ar eich P60. Os gwnaed hyn yn gywir, yna bydd angen i chi nodi unrhyw swm ar gyfer incwm gwarantau tramor a drosglwyddwyd i'r DU yn y flwyddyn yn unig. Bydd y swm hwn yn swm sy'n agored i dreth mewn perthynas â chynlluniau cyfranddaliadau ym mlwch 1 (Tudalen Ai 2).

Cyfandaliadau, iawndal a didyniadau eich cyflogaeth

Blychau 3 i 10

Bydd y nodiadau hyn yn eich cynorthwyo i gyfrifo pa ffigurau i'w rhoi ym mlychau 3 i 10 os ydych wedi derbyn rhai taliadau mawr penodol (fel arfer mewn arian parod ac eithrio pensiynau) neu fuddiannau oddi wrth eich cyflogwr neu eich cyn gyflogwr. Gallai taliadau o'r fath ddigwydd:

- pan ddaw eich swydd i ben
- ar ôl i'ch swydd ddod i ben ond cytunwyd pryd ddylai ddod i ben
- pan fydd telerau eich cyflogaeth yn newid
- pan ddisgwyliwch ymddeol neu wrth i chi neu ar ôl i chi ymddeol neu pan fyddwch farw – os gwnaed hyn o Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariannir gan Gyflogwr (EFRBS) (hynny yw, cynllun sy'n darparu buddiannau sy'n cynnwys buddiannau ymddeol a marwolaeth; fel arfer caiff ei drefnu gan eich cyflogwr ond ni chaiff ei gofrestru gennym ni)
- pan fyddwch yn derbyn taliadau neu gydnabyddiaeth arall ar gyfer cyfamod cyfyngu.

Os mai dim ond taliad colli swydd o hyd at £30,000 sydd gennych ac mae eich cyflogwr wedi caniatáu rhyddhad yn ei erbyn, rhowch swm y taliad ym mlwch 9. Er enghraifft, os cawsoch daliad colli swydd o £10,000 caiff ei gwmpasu gan y rhyddhad o £30,000, felly gadewch flwch 5 yn wag a nodwch £10,000 ym mlwch 9. Os ydy'ch taliad colli swydd yn fwy na'r terfyn rhyddhad o £30,000, nodwch y swm sydd uwchben y terfyn ym mlwch 5, y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 6 a'r terfyn o £30,000 ym mlwch 9.

Os oedd eich taliad yn £40,000 byddech yn nodi £10,000 ym mlwch 5, y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 6 a £30,000 ym mlwch 9.

Os oedd y taliad yn fwy cymhleth darllenwch drwy'r nodiadau hyn cyn dechrau cwblhau'r blychau yn y Daflen Waith neu trosglwyddwch wybodaeth i flychau 3 i 10. Os bydd angen mwy o gymorth arnoch cysylltwch â ni neu siaradwch â'ch cynghorydd treth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith 22

Dechreuwch drwy gyfrifo'r cyfanswm sy'n ddyledus i chi yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009, cyn didynnu unrhyw dreth o'r taliadau. Os darparwyd buddiannau nad oeddent ar ffurf arian parod, bydd yn rhaid i chi gyfrifo eu cyfwerth mewn arian neu swm cyfatebol; cysylltwch â ni os bydd angen cymorth arnoch ynglŷn â hyn.

Dylech eithrio o'r cyfanswm hwn unrhyw:

- taliadau o gynlluniau pensiwn a gofrestrwyd gyda Chyllid a Thollau EM
- taliadau o gynlluniau buddiannau ymddeol llywodraeth dramor
- buddiannau (ac eithrio buddiannau perthnasol o EFRBS, gweler y nodyn ar gyfer blwch C) a gafwyd neu a ddarparwyd tra'r oeddech yn para'n gyflogai
- taliad am wasanaethau cynghori a gawsoch wrth adael
- costau cyfreithiol a dalwyd gan eich cyflogwr i'ch cyfreithiwr fel rhan o setliad terfynu i wneud iawn am golli eich swydd
- taliadau arbennig a wnaed gan eich cyflogwr i gynllun pensiwn cofrestredig fel rhan o'r trefniadau terfynu
- cyfandaliadau a dalwyd i aelodau'r lluoedd arfog a delir o dan Warant Frenhinol, Gorchymyn y Frenhines neu Orchymyn y Cyfrin-Gyngor.

A £

Cyfanswm sy'n ddyledus cyn didynnu treth
Rhaid rhannu Blwch A yn dair rhan: blwch B – cyfandaliadau trethadwy, blwch C – buddiannau perthnasol o EFRBS a blwch D – derbyniadau eraill.

Blwch B yw cyfanswm y canlynol:

- unrhyw gyflog a oedd yn ddyledus i chi pan adawsoch a gynhwyswyd yn y cyfandaliad
- tâl gwyliau
- taliad yn lle rhybudd diswyddo – p'un ai yn ôl cytundeb neu a delir yn arferol gan y cyflogwr
- taliadau bonws
- iawndal am newidiadau yn nhelerau eich cyflogaeth
- taliadau a wnaed i warantu eich ymddygiad yn y dyfodol ('cyfamodau cyfyngu') er enghraifft, cytuno i beidio â chystadlu gyda'ch cyn gyflogwr
- unrhyw swm neu fudd cytundebol arall ac eithrio taliadau colli swydd o dan gytundeb neu fuddiannau.

B £

Copïwch flwch B i flwch 3

Mae Blwch C ar gyfer cyfanswm y 'buddiannau perthnasol' a ddarperir i chi o dan EFRBS (gan gynnwys cynllun pensiwn tramor nad yw wedi ei gofrestru yn y DU). Ewch i **www.hmrc.gov.uk** am ddiffiniad o 'buddiannau perthnasol' neu gofynnwch i ni os nad ydych yn siŵr

C £

Mae Blwch D ar gyfer derbyniadau eraill sef blwch A llai blychau B a C.

D £

Os ydych am wirio, *blwch D + blwch C + blwch B = blwch A*

Nawr cyfrifwch yr hyn a allai ostwng y swm fydd yn rhaid i chi dalu treth arno.

Os ydych wedi derbyn unrhyw daliad penodol (a gynhwyswyd ym mlwch D uchod) ar gyfer unrhyw nam corfforol neu feddyliol pan ddaeth eich cyflogaeth i ben neu pan newidiodd y telerau, nodwch ef ym mlwch E.

Os ydy blwch E yn hafal i flwch D, ewch i flwch I.

E £

Os ar unrhyw adeg yn ystod eich cyflogaeth 'nad oeddech yn preswylio ac fel arfer yn preswylio yn y DU' neu os oeddech yn gymwys am Ddidyniad Enillion Morwyr (neu Ddidyniad enillion Tramor cyn 6 Ebrill 1998), neu os oeddech yn preswylio ac fel arfer yn preswylio ond nid oedd eich domisil yn y DU, ac yn ymgymryd â dyletswyddau nad oeddynt yn y DU ar gyfer cyflogwr tramor, ystyrir y cyfnod hwnnw yn 'wasanaeth tramor'. Cyfrifwch eich rhyddhad am wasanaeth tramor i'w roi ym mlwch F, fel arall ewch ymlaen i'r nodiadau ar gyfer blwch G.

Os oedd:

- 75% o'ch gwasanaeth yn wasanaeth tramor (gweler uchod), neu
- eich 10 mlynedd olaf yn wasanaeth tramor ac yn ei gyfanrwydd roedd eich gwasanaeth yn hwy na 10 mlynedd, neu
- cyfanswm eich gwasanaeth yn hwy nag 20 mlynedd ac roedd ei hanner yn wasanaeth tramor (gan gynnwys unrhyw 10 o'r 20 mlynedd olaf) cewch y rhyddhad llawn am wasanaeth tramor. Ym mlwch F nodwch y swm a gynhwyswyd ym mlwch D ar gyfer y swydd yr oedd gennych wasanaeth tramor ynddi.

Os ydy'r swm ym mlwch F yr un peth a blwch D, ewch i flwch I

F £

Efallai y cewch rywfaint o ostyngiad o hyd os oedd gennych wasanaeth tramor ond nid ydych yn gymwys ar gyfer y rhyddhad llawn am wasanaeth tramor. I gyfrifo hwn:

- cyfrifwch gyfanswm eich gwasanaeth yn y swydd mewn misoedd
- cyfrifwch y rhan a oedd yn wasanaeth tramor, mewn misoedd hefyd
- didynnwch £30,000 o'r swm a gynhwyswyd ym mlwch D ar gyfer eich gwasanaeth tramor (peidiwch â newid blwch D ei hun)
- lluoswch y canlyniad o'r pwynt bwled blaenorol gyda nifer y misoedd o wasanaeth tramor wedi'i rannu â nifer y misoedd eich gwasanaeth llawn.

Rhowch y canlyniad ym mlwch G.

G £

Mae blwch H ar gyfer rhyddhad o'r symiau a gynhwyswyd ym mlwch D, er enghraifft taliadau colli swydd. Uchafswm y rhyddhad yw £30,000 ar gyfer pob swydd, ond os ydy blwch D yn llai na £30,000 gallwch gofnodi'r swm sydd ym mlwch D yn unig ym mlwch H. Bydd swyddi gyda'r un cyflogwr neu gyda chyflogwyr o dan yr un rheolaeth neu reolaeth gyffredin yn cyfrif fel un swydd. Er enghraifft, os cawsoch daliadau am golli swydd o ddau gwmni yn yr un grŵp, gallwch gael un rhyddhad o hyd at £30,000 yn unig. Os bydd eich setliad terfynu yn ymestyn dros fwy nag un flwyddyn, gallwch gario unrhyw ryddhad sydd heb ei ddefnyddio ymlaen.

Copïwch flwch H i flwch 9

H £

Blwch I yw blychau E, F, G a H wedi eu hychwanegu at ei gilydd.

I £

Mae blwch J yn delio ag eithriadau pellach a allai leihau'r ffigur ym mlwch C. Ychwanegwch at ei gilydd unrhyw symiau a gynhwyswyd ym mlwch C a oedd:

- wedi eu hariannu gan gyfraniadau a dalwyd gan eich cyflogwr cyn 6 Ebrill 2006 ond cawsoch eich trethu ar y cyfraniadau yn y flwyddyn y cawsant eu talu (efallai y gofynnwn i chi amdanynt)

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- wedi eu talu oherwydd eich cyfraniadau chi eich hun
- o gynllun tramor (mae mwy o amodau ynghlwm â hyn – rhaid i chi gymhwyso o dan Gonsesiwn All-statudol A10 – gofynnwch i ni am hyn os nad ydych yn siŵr).

Copïwch flwch J i flwch 8 J £

Nawr cyfrifwch yr hyn y dylech gynnwys yng ngweddill y blychau.

Ym mlwch K, nodwch flwch C llai blwch J. *Copïwch flwch K i flwch 4* K £

Ym mlwch L, nodwch flwch D llai blwch I. *Copïwch flwch L i flwch 5* L £

Ac ym mlwch M, nodwch gyfanswm blychau E, F a G.
Copïwch flwch M i flwch 10 M £

Gallai eich cyflogwr fod wedi didynnu treth TWE o rai o'r taliadau neu o bob taliad. Os nad ydych wedi cynnwys y dreth honno ym mlwch 2 y dudalen *Cyflogaeth* ar eich Ffurflen Dreth, nodwch ef ym mlwch 6.

Blwch 11 *Didyniad Enillion Morwyr*

Mae morwr yn 'rhywun sy'n cyflawni dyletswyddau ei gyflogaeth ar long'. Ni ystyrir safleoedd alltraeth a ddefnyddir yn y diwydiant olew a nwy yn llongau ac ni ystyrir gweithwyr ar unedau drilio alltraeth symudol, rigiau rhannol danddwr a rigiau jacio yn 'forwyr' ac felly nid oes hawl ganddynt gael y didyniad. Os credwch eich bod yn gymwys, gofynnwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am Daflen Gymorth 205 *Seafarers' Earnings Deduction*. Bydd y Daflen Gymorth yn eich tywys drwy'r cyfrifiad ar gyfer y cyfnod 'cymwys' gan gyfrifo'r didyniad i'w nodi ym mlwch 11. Os ydych yn gymwys am y didyniad, nodwch enw'r llongau y buoch yn cyflawni dyletswyddau eich cyflogaeth arnynt ym mlwch 17 ar dudalen Ai 4.

Blwch 12 *Enillion tramor nad ydynt yn agored i dreth yn y DU*

Bydd angen Taflen Gymorth 211 *Employment – Residence and domicile issues* arnoch i gyfrifo'r rhan o'ch derbyniadau nad yw'n agored i dreth incwm y DU yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009:

- os ydych, os byddwch neu os buoch yn ddibreswyl neu'n hawlio triniaeth blwyddyn ranedig, neu
- buoch yn ddibreswyl fel arfer neu nid oedd eich domisil yn y DU, neu
- os ydych neu os byddwch yn ddibreswyl fel arfer neu os nad oedd eich domisil yn y DU, mae rheolau'r sail trosglwyddo yn berthnasol i ran o'ch incwm (gweler nodiadau *preswylio, sail trosglwyddo ac ati*) neu
- os derbynioch incwm mewn gwlad dramor na allech ei ddwyn i'r wlad hon oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian tramor yn y wlad honno.

Nodwch y swm nad yw'n agored i dreth eleni ym mlwch 12. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y swm hwn (neu ran ohono) mewn blwyddyn gynharach neu ddiweddarach neu efallai y bydd treth yn daladwy ar yr un swm mewn gwlad arall.

Blwch 13 ***Treth dramor na wnaed cais am ryddhad credyd treth ar ei chyfer***

Ym mlwch 13 nodwch y cyfwerth mewn sterling o'r dreth dramor a dalwyd gennych ar yr incwm o'ch cyflogaeth ac nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth ar ei chyfer.

Blwch 14 ***Cyfraniadau cyflogwr a eithriwyd i gynllun pensiwn tramor***

Os credwch fod eich cyflogwr wedi gwneud cyfraniadau o'r fath ac y gallai'r blwch hwn fod yn gymwys i chi, gofynnwch y Llinell Gyswllt am Daflen Gymorth 344 *Exempt employers' contributions to an overseas pension scheme* neu ewch i **www.hmrc.gov.uk** am ragor o wybodaeth.

Rhyddhad treth arall

Blwch 1 ***Tanysgrifiadau am gyfranddaliadau Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro***

Os ydych wedi tanysgrifio am gyfranddaliadau mewn Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro ac roeddech yn 18 oed neu'n hŷn pan dyroddwyd y cyfranddaliadau, gallwch hawlio rhyddhad treth.

Swm y rhyddhad y mae hawl gennych iddo yw:
- yr isaf o'r swm y gwnaethoch danysgrifio (hyd at uchafswm o £200,000) ar 30%, neu
- y swm sy'n gostwng eich bil treth am y flwyddyn i sero.

Nodwch y swm a danysgrifiwyd gennych, hyd at £200,000 ym mlwch 1. Dylech gadw unrhyw dystysgrifau a roddir i chi gan yr ymddiriedolaethau.

Blwch 2 ***Tanysgrifiadau am gyfranddaliadau o dan Gynllun Buddsoddiad Menter***

Os gwnaethoch fuddsoddi mewn cyfranddaliadau a dyroddwyd yn ystod y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 (neu, mewn rhai achosion, yn ystod y chwe mis canlynol) efallai y gallwch wneud cais am ryddhad Treth Incwm o dan y Cynllun Buddsoddiad Menter. I fod yn gymwys am y rhyddhad rhaid eich bod wedi cael naill ai ffurflen EIS3 gan y cwmni y gwnaethoch fuddsoddi ynddo neu ffurflen EIS5 gan reolwr cronfa fuddsoddi gymeradwy. Mae Taflen Gymorth 341 *Enterprise Investment Scheme – Income Tax relief* yn esbonio'r amodau ar gyfer cymhwyso am ryddhad treth.

Ym mlwch 2 nodwch swm y rhyddhad rydych yn ei hawlio (hyd at gyfanswm o £500,000) am y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 ac ym mlwch 17 ar dudalen Ai 4 nodwch:
- enw'r cwmni y gwnaethoch fuddsoddi ynddo
- cyfanswm y tanysgrifiad rydych yn gwneud cais am ryddhad ar ei gyfer am y flwyddyn hyd 5 Ebrill 2009. (Os ydych wedi tanysgrifio mwy na £500,000, mae Taflen Gymorth 341 *Enterprise Investment Scheme – Income Tax relief* yn esbonio sut y gellir dyrannu rhyddhad i'r cyfranddaliadau)
- dyddiad dyroddi'r cyfranddaliadau
- enw ein swyddfa sy'n awdurdodi dosbarthu'r EIS3 neu'r EIS5 a'u cyfeirnod.

Blwch 3 ***Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol***

I fod yn gymwys am Ryddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol:
- rhaid eich bod wedi buddsoddi mewn Sefydliad Ariannol ar gyfer Datblygiad Cymunedol o fewn Cynllun Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol ar neu cyn 5 Ebrill 2009, a
- rhaid eich bod wedi derbyn tystysgrif rhyddhad treth mewn perthynas â'r buddsoddiad, a
- rhaid i chi gadw'r buddsoddiad am o leiaf pum mlynedd a bodloni rheolau eraill y cynllun.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os byddwch yn bodloni'r rheolau, byddwch yn gallu gwneud cais am ryddhad treth mewn perthynas â'r un buddsoddiad am bum mlynedd yn olynol (bydd y flwyddyn gyntaf yr un y gwnaethoch fuddsoddi ynddi). Rhaid i chi wneud cais yn flynyddol ar eich Ffurflen Dreth. Mae fwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 237 *Community Investment Tax Relief – relief for individuals*.

Swm y rhyddhad ar gyfer pob blwyddyn yw'r lleiaf o
- 5% y swm a fuddsoddwyd gennych (ac sy'n parhau wedi ei fuddsoddi), neu
- y swm sy'n gostwng eich bil treth i sero am y flwyddyn honno.

Nodwch y swm yr hawlir rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 3.

Blwch 4 ***Blwydd-daliadau a thaliadau blynyddol a wnaed***

Os ydych:
- wedi talu breindaliadau i rywun er mwyn i chi ddefnyddio patent y DU (ond nid patent tramor neu fyd-eang), neu
- wedi gwneud taliadau blynyddol i rywun o dan ymrwymiad cyfreithiol mewn cysylltiad â'ch crefft neu'ch proffesiwn,

rhaid i chi atal y Dreth Incwm ar y gyfradd sylfaenol o'r swm a dalwch. Er enghraifft, os ydy'r taliad blynyddol neu'r breindal patent y dylech ei dalu'n £100 ('y swm gros'), dylech atal 20% o hyn, neu £20, gan dalu £80 i'r person arall.

Dylech nodi'r swm net a dalwyd yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 – hynny yw, y swm a dalwch mewn gwirionedd i'r person arall – ym mlwch 4. Cewch ryddhad treth am y swm gros. Ond yn ychwanegol at hyn caiff y Dreth Incwm a chafodd ei hatal gennych ei thalu fel rhan o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus ar eich incwm.

Os ydych eisoes wedi hawlio'r breindal neu'r taliad blynyddol fel traul busnes ar y tudalennau *Hunangyflogaeth*, dylech nodi'r swm a dalwyd gennych yn y blwch 'Gwybodaeth arall' blwch 19 ar dudalen TR 6 eich Ffurflen Dreth neu flwch 102 ar y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)*.

Blwch 5 ***Llog ar fenthyciad cymwys a dalwyd yn y flwyddyn***

Efallai y bydd gennych hawl i ryddhad treth am log a dalwyd ar fenthyciad neu drefniant ariannu amgen a ddefnyddiwyd i brynu:
- cyfranddaliadau mewn, neu i ariannu, cwmni caeëdig (cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr p'un a yw'r cwmni'n un caeëdig)
- buddiant mewn neu i ariannu partneriaeth
- offer neu beiriannau ar gyfer eich gwaith (ond gwnewch yn siŵr nad ydych yn hawlio'r llog hwn ddwywaith – byddwch wedi gwneud hynny os ydych eisoes wedi ei ddidynnu fel traul y busnes).

Os cewch fenthyciad llog isel neu ddi-log gan eich cyflogwr at un o'r dibenion uchod efallai y gallwch hawlio rhyddhad am unrhyw fudd y byddwch yn agored i dalu treth arno.

Nodwch y swm rydych yn ei hawlio ym mlwch 5, ond os oes angen fwy o wybodaeth arnoch ynglŷn ag unrhyw un o'r benthyciadau hyn, cysylltwch â ni. Mae fwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 340 *Interest and alternative finance payments eligible for relief on qualifying loans and alternative finance arrangements*.

Blwch 6 ***Treuliau ôl-derfynu a rhai colledion penodol eraill***

Rhaid gwneud cais am y rhyddhad hwn erbyn 31 Ionawr 2010. Nodwch y cyfanswm rydych yn ei hawlio ym mlwch 6. (Os fel eithriad, rydych yn hawlio rhyddhad yn erbyn enillion cyfalaf rhowch y manylion ym mlwch 17 ar dudalen Ai 4.)

Os bu rhaid i chi dalu treuliau mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw ers i'r busnes ddod i ben, efallai y gallech gael rhyddhad treth ar y taliadau hynny (os gwnaethoch eu talu o fewn saith mlynedd o pan ddaeth y busnes i ben). Rhoddir y rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn dreth y gwnaed y taliadau.

Ym mlwch 6 nodwch y taliadau a wnaed yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 ar gyfer:
- gwella gwaith diffygiol, neu fel iawndal am waith diffygiol a wnaed, neu wasanaethau diffygiol neu nwyddau a gyflenwyd, neu
- gwasanaethau cyfreithiol neu broffesiynol ar gyfer unrhyw honiad yn eich erbyn am y gwaith diffygiol hwnnw ac ati, neu
- yswiriant yn erbyn treuliau o'r fath, neu
- adennill dyledion a gymerwyd i ystyriaeth wrth gyfrifo elw eich busnes (cyn iddo ddod i ben).

Yn ychwanegol at hyn, gellir cynnwys dyledion a ddaeth yn ddrwg ddyledion neu a ryddhawyd o dan drefniant ffurfiol gwirfoddol o fewn saith mlynedd o'r dyddiad y daeth y busnes i ben ym mlwch 6.

Tra roeddech mewn busnes, os gwnaethoch leihau eich elw drwy osod treuliau yn ei erbyn nad oeddech mewn gwirionedd wedi eu talu, ac mae'r treuliau hynny'n parhau heb eu talu ar 5 Ebrill 2009, dylech ostwng y swm rydych yn ei hawlio nawr gan y swm na chafodd ei dalu.

Os byddwch yn adennill unrhyw ran o'r symiau a wariwyd, efallai o bolisi yswiriant neu drydydd parti, dylech nodi'r symiau a gawsoch yn yr adran ar gyfer 'Incwm arall y DU' ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth.

Colledion cyn ymgorffori

Os ydych:
- wedi cario colledion ymlaen o'ch busnes er mwyn eu gosod yn erbyn elw yn y dyfodol
- wedi trosglwyddo eich busnes i gwmni cyn bod yr holl golledion hynny wedi eu defnyddio
- wedi derbyn, yn unigol neu'n bennaf, cyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw yn gyfnewid am drosglwyddo eich busnes, ac
- yn berchennog llesiannol y cyfranddaliadau ac mae'r cwmni wedi cynnal ei fusnes trwy gydol y flwyddyn (neu o ddyddiad y trosglwyddiad i 5 Ebrill)

yna efallai gallech osod unrhyw golledion sy'n weddill yn erbyn eich incwm o'r cwmni.

Rhyddhad ar gyfer rhwymedigaethau a chostau cyn gyflogai

Os ydy swm y rhwymedigaethau neu'r costau i'w nodi ym mlwch 6, mewn perthynas â'ch gweithredoedd anghyfiawn gwirioneddol neu a honnir i chi eu cyflawni yn eich cyn gyflogaeth, yn fwy na chyfanswm eich incwm yn y flwyddyn efallai y gallech hawlio'r swm sydd dros ben yn erbyn enillion cyfalaf. Ceir rheolau arbennig sy'n cyfyngu'r rhyddhad os na wnaethoch dalu am y costau hyn ac ati, eich hun. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr ynglŷn â'r hyn ddylech nodi ym mlwch 6.

Blwch 7 *Taliadau cynhaliaeth*

Os:
- cawsoch chi neu eich cyn briod neu'ch cyn bartner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, ac
- ydych yn talu i gynnal eich cyn briod neu eich cyn bartner sifil neu eich plentyn, a
- gwneir y taliadau hynny o dan orchymyn llys, neu asesiad yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA), neu gytundeb ysgrifenedig

efallai y bydd hawl gennych i ryddhad treth. Mae rhyddhad (o 10%) ar gael ar daliadau hyd at £2,540 yn gyfan gwbl. Rhaid i chi fodloni pob un o'r amodau canlynol:
- gwneir y gorchymyn llys, asesiad yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) neu gytundeb

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

ysgrifenedig o dan gyfreithiau un o'r canlynol – Y Deyrnas Unedig, Awstria, Bwlgaria, Cyprus, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Gwlad Pwyl, Hwngari, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden, Yr Almaen, Yr Eidal, Y Ffindir, Yr Iseldiroedd, Y Weriniaeth Tsiec.

- caiff taliadau a wnewch i briod rydych wedi gwahanu oddi wrtho/wrthi neu eich cyn briod neu bartner sifil neu, er eu bod yn cael eu talu i'r Adran Gwaith a Phensiynau (yr SSA yng Ngogledd Iwerddon), eu trin fel petaen nhw wedi eu talu iddo/iddi
- nid yw eich cyn briod wedi ailbriodi neu nid yw eich cyn bartner sifil wedi ffurfio partneriaeth sifil arall (os ydyn nhw, bydd y taliadau a wnaethoch (heb fod yn uwch na'r uchafswm o £2,540) hyd at ddyddiad yr ailbriodas neu ffurfio'r bartneriaeth sifil yn gymwys am ryddhad)
- mae'r taliadau ar gyfer ei gynhaliaeth ef/chynhaliaeth hi ei hun.

Yn ychwanegol at hyn, os bodlonir yr amod cyntaf ac mae'r taliadau a wnewch i'r rhiant arall er mwyn cynnal eich plentyn (neu blentyn y gwnaethoch drin fel rhan o'ch teulu) sydd o dan 21 oed, yna gallwch gael rhyddhad treth.

Ym mlwch 7 nodwch yr isaf o, y taliadau a wnaethoch neu £2,540. Bydd y rhyddhad treth yn 10% o'r ffigur hwn.

Blwch 8 ***Taliadau i undeb llafur ac ati ar gyfer budd-daliadau marwolaeth***

Os ydy rhan o'ch tanysgrifiad yn rhoi'r hawl i chi gael pensiwn, yswiriant bywyd neu fudd-daliadau angladd, yna bydd hawl gennych i ryddhad treth ar swm sy'n hafal i un hanner eich tanysgrifiad i'r undeb (hyd at uchafswm o £100) sy'n darparu'r budd-daliadau. Nodwch y swm hwn ym mlwch 8. Bydd cynrychiolydd eich undeb yn gallu dweud wrthych faint o'r tanysgrifiad os unrhyw beth, oedd ar gyfer y buddiannau hyn.

Blwch 9 ***Rhyddhad a hawlir ar gyfer cynllun budd-dal gorfodol eich cyflogwr ar gyfer gwraig weddw, gŵr gweddw neu blant amddifaid – (uchafswm £20)***

Fel arfer rhoddir rhyddhad treth i chi ar gyfer eich taliadau i gynllun gorfodol eich cyflogwr drwy'r system TWE er mwyn darparu pensiwn i'ch priod eich partner sifil, neu gefnogaeth ariannol i'ch plant, os digwydd i chi farw. Yn achlysurol iawn, er enghraifft os bydd rhaid i chi dalu cyfraniad trwy gyfandaliad i'r cynllun pan fyddwch yn ymddeol, ni fyddwch yn cael yr holl ryddhad y mae gennych hawl iddo drwy TWE. Uchafswm y rhyddhad y gallwch ei gael yw £100 ar y gyfradd sylfaenol o 20% (£20). Cyfrifwch y rhyddhad nas rhoddwyd i chi a nodwch y ffigur ym mlwch 9 (hyd at yr uchafswm o £20).

Blwch 10 ***Rhyddhad a hawlir ar ddosbarthiad cymwys ar adeg adbryniant cyfranddaliadau neu warantau bonws***

Mae adbryniant cyfranddaliadau neu warantau bonws yn ddosbarthiad cymwys ac fe'i telir ynghyd â chredyd treth. Os talwch dreth ar y gyfradd uwch bydd treth ychwanegol i'w thalu ar yr incwm hwn (byddwch wedi ei gynnwys yn y blwch Difidendau, blwch 3 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth). Ond mae gennych hawl i lwfans, yn nhermau treth, am y dreth ar y gyfradd uwch a daloch pan dyroddwyd y cyfranddaliadau neu'r gwarantau bonws hynny. Mae'r lwfans hwn yn golygu na chaiff yr incwm ei drethu ddwywaith.

Ym mlwch 10 nodwch y gyfradd dreth uwch a dalwyd ar ddosbarthiad y cyfranddaliadau hynny nad ydynt yn cymhwyso (y dreth ar y gyfradd uwch yn unig, nid y credyd treth neu'r dreth ar y gyfradd is sy'n cyfateb) – bydd hyn yn golygu mynd yn ôl i'r flwyddyn dreth pan gawsant eu dyroddi a gwirio faint o dreth a daloch ar yr incwm hwnnw bryd hynny.

Lwfans pâr priod ar sail oedran

Blychau 1 i 11

Gellir gwneud cais am y lwfans pâr priod dim ond os cafodd naill ai chi, neu eich priod neu eich partner sifil (yn dilyn cyflwyno Deddf Partneriaethau Sifil 2004) eich geni cyn 6 Ebrill 1935, ac:

- rydych yn ddyn priod neu'n wraig briod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005
- rydych yn ddyn priod yn wraig briod neu'n bartner sifil a briododd neu a ffurfiodd bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005.

Mae'r lwfans yn cynnwys dau swm, isafswm (sy'n werth hyd at £254) yn ogystal â swm ar sail oedran sy'n dibynnu ar incwm y gŵr (ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005), neu'r person gyda'r incwm uchaf (ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil a ffurfiwyd ar ôl 5 Rhagfyr 2005).

Gall pâr priod neu bartneriaid sifil rannu isafswm y lwfans. Ond rhaid eich bod wedi gofyn i ni wneud hyn eisoes (naill ai cyn 5 Ebrill 2008 neu os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn ystod y flwyddyn i 5 Ebrill 2009, erbyn y dyddiad hynny). Os ydych am newid y ffordd y rhoddir y lwfans yn 2010-11 dylech gysylltu â ni (mae hi eisoes yn rhy hwyr i newid ar gyfer 2009-10).

Lwfans pâr priod sydd dros ben

Y gŵr (priodasau hyd at 5 Rhagfyr 2005) ***neu briod neu bartner sifil gyda'r incwm uchaf*** (priodasau a phartneriaethau sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005).

Os na allwch ddefnyddio eich lwfans pâr priod i gyd gallwch drosglwyddo'r hyn sydd dros ben i'ch priod neu eich partner sifil. Mae gennych hawl i wneud hyn:

- os nad oedd gennych ddigon o incwm yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 i ddefnyddio'r lwfansau, a
- os oeddech yn byw gyda'ch priod neu'ch partner sifil am ran o'r flwyddyn honno.

Rhowch 'x' ym mlwch 11 os ydych am i'ch priod neu eich partner sifil i gael y lwfansau sydd dros ben. Cofiwch i gwblhau blwch 1 hefyd a lle bo hynny'n briodol blychau 2 i 5 a blwch 9.

Y wraig (priodasau hyd at 5 Rhagfyr 2005) ***neu briod neu bartner sifil gyda'r incwm isaf*** (priodasau a phartneriaethau sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005) – cwblhewch flychau 6 i 11

Os nad oedd gan eich priod neu eich partner sifil ddigon o incwm yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 i ddefnyddio rhan neu'r cyfan o'r lwfans pâr priod, gallwch ofyn i ni drosglwyddo'r lwfans sydd dros ben i chi. Gallwch wedyn ddefnyddio'r lwfans hwn i ostwng eich Treth Incwm sy'n rhaid i chi ei thalu. Os ydych yn cyfrifo eich rhwymedigaeth treth eich hun, efallai y bydd yn rhaid i chi ofyn eich priod neu eich partner sifil am swm y lwfans a hawliwyd sydd dros ben er mwyn ei nodi ym mlwch [A152] ar y Daflen Waith yn y *nodiadau ar gyfer crynodeb o'r cyfrifiad* (ac ym mlwch 12 ar dudalennau *crynodeb o'r cyfrifiad*). Os nad ydych yn siŵr ynglŷn â'r swm, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth. Ond os nad ydych yn cyfrifo eich treth, does dim rhaid i chi nodi swm y lwfans sydd dros ben – gallwn ni gyfrifo hwn.

Mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych ba flychau i'w cwblhau ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*. Mae hyn yn dibynnu ar p'un a oeddech wedi penderfynu'n flaenorol i rannu isafswm y lwfans pâr priod.

a. Os ydych nawr yn hawlio'r lwfans pâr priod sydd dros ben oddi wrth eich priod neu eich partner sifil ac rydych eisoes:

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- wedi dewis derbyn hanner isafswm y lwfans pâr priod (byddech wedi gwneud hyn drwy gwblhau ffurflen ddewis 18 ac roeddem wedi cytuno), neu
- wedi dewis ar y cyd, hynny yw, chi eich priod neu eich partner sifil y dylech gael isafswm y lwfans pâr priod i gyd (byddech wedi gwneud hyn drwy gwblhau ffurflen ddewis 18 ac roeddem wedi cytuno)

cwblhewch eich cais drwy nodi'r manylion fel y bo'n briodol ym mlychau 6 i 11.

b. Os ydych nawr yn hawlio unrhyw lwfans pâr priod sydd dros ben oddi wrth eich priod neu eich partner sifil ac nid ydych wedi gwneud dewis yn flaenorol a heb ddewis yn flaenorol i dderbyn hanner neu'r cyfan o isafswm y lwfans pâr priod, cwblhewch eich cais drwy:

- nodi 'x' ym mlwch 10, a
- nodi enw eich priod neu eich partner sifil yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 17, ar dudalen Ai 4. **Peidiwch** â chwblhau blwch 8.

c. Os nad ydych yn hawlio lwfans pâr priod sydd dros ben ond gwnaethoch ddewis yn flaenorol (buasech wedi gwneud hyn drwy gwblhau ffurflen ddewis 18 ac roeddem wedi cytuno) i dderbyn hanner neu'r cyfan o isafswm y lwfans pâr priod, cwblhewch eich cais drwy nodi'r manylion fel y bo'n briodol ym mlychau 6 i 9.

Os nad ydych yn siŵr ynglŷn â hawlio neu drosglwyddo lwfansau sydd dros ben, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth.

Rheolau arbennig os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009

Os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009, gallwch hawlio 1/12 y lwfans pâr priod ar gyfer pob mis treth (neu ran o fis treth) o'ch priodas neu eich partneriaeth sifil (mae mis treth yn dechrau ar y 6ed o un mis tan y 5ed o'r mis nesaf.

Yn achlysurol, efallai y byddwch wedi gwneud cais am lwfans pâr priod am y flwyddyn dreth y gwnaethoch ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil ynddi. Gallai hyn ddigwydd pan fydd priod neu bartner sifil yn marw ac rydych yn penderfynu ail briodi neu ffurfio partneriaeth sifil arall cyn y 5 Ebrill dilynol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae hi bron bob amser yn fwy manteisiol i chi barhau i hawlio'r lwfans pâr priod yn 2008-09 ar gyfer eich cyn briod neu cyn bartner sifil yn hytrach na gwneud cais wedi ei ddosrannu ar sail amser ar gyfer eich priod neu eich partner sifil newydd. Dylech nodi enw eich cyn briod neu cyn bartner sifil ym mlwch 1 a'u dyddiad geni ym mlwch 5 ar y Ffurflen Dreth hon.

Gwybodaeth arall

Colledion Treth Incwm

Blwch 1 ***Colledion blynyddoedd cynharach***

Ni ellir gosod colledion incwm yn erbyn yr holl fathau o incwm a gofnodir ym mlwch 15 yn adran 'Incwm arall yn y DU' ar eich Ffurflen Dreth (tudalen TR 3). Er enghraifft, ni allwch osod colledion yn erbyn taliadau blynyddol. Os oes angen fwy o wybodaeth arnoch ynglŷn â hyn, gofynnwch y Llinell Gyswllt am Daflen Gymorth 325 *Other taxable income*. Ym mlwch 1 nodwch swm unrhyw golled a ddygwyd ymlaen i'w gosod yn erbyn eich 'Incwm arall yn y DU' ar gyfer 2008-09.

Blwch 2 ***Cyfanswm y colledion nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen***

Ym mlwch 2 nodwch gyfanswm colledion incwm rydych yn eu hawlio i'w cario ymlaen i flwyddyn ddiweddarach. Bydd hyn yn cynnwys swm unrhyw golled ar gyfer 2008-09 na ellwch ei gosod yn erbyn blwch 15 'Incwm arall y DU' ac unrhyw golledion caniataol nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach.

Blychau 3 a 4

Ym mlwch 3 nodwch swm colledion masnachu (neu o bosibl cyfalaf penodol) 2009-10 rydych yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer ac ym mlwch 4 nodwch y flwyddyn dreth y mae'r golled i'w rhyddhau, er enghraifft 2008-09.

Tâl treth ar gynilion pensiwn a chyfandaliadau trethadwy o gynlluniau pensiynau tramor

Blychau 5 i 14

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o bobl gwblhau blychau 5 i 14 ac os bydd angen, mae'n debyg y bydd cynghorydd treth gennych i'ch cynorthwyo.

Os ydy'ch cynllun pensiwn yn gynllun pensiwn a gofrestrwyd yn y DU dylai gweinyddwr y cynllun pensiwn ddweud wrthych os codir tâl treth ar y cynilion pensiwn.

Os bydd y taliadau treth ym mlychau 5 i 10 yn gymwys i chi, bydd angen Taflen Gymorth 345 *Pensions – tax charges on any excess over the Lifetime Allowance and the Annual Allowance, and on unauthorised payments* arnoch.

Mae arweiniad llawn ynglŷn â'r holl daliadau treth ar gynilion pensiwn a allai godi i'w gweld yn **www.hmrc.gov.uk** ond yn fyr iawn:

- gallai tâl treth 'Gor-lwfans Oes' fod yn gymwys os aeth eich cynilion yn uwch na'r Lwfans Oes Safonol o £1,650,000 pan ddechreuoch dderbyn eich buddiannau pensiwn o gynllun pensiwn a gofrestrwyd yn y DU yn ystod 2008-09. Ni fydd tâl yn ddyledus os gwnaethoch ein hysbysu o'ch bwriad i ddibynnu ar Lwfans Oes Uwch (byddwch yn gwybod os mai hyn yw'r achos)
- gallai tâl treth 'Gor-lwfans Blynyddol' fod yn gymwys os oedd y cyfanswm a gynilwyd tuag at eich budd-daliadau pensiwn mewn cynlluniau pensiwn a gofrestrwyd yn ystod 'cyfnodau cyfrannu i bensiwn' a ddaeth i ben yn 2008-09 (a chynlluniau pensiwn tramor, gyda rhai addasiadau) yn uwch na'r Lwfans Blynyddol o £235,000. Mae'r swm a gynilwyd tuag at eich budd-daliadau pensiwn yn cynnwys
  - eich holl gyfraniadau (a rhai eich cyflogwr ar eich rhan) i drefniadau prynu ag arian, a
  - ffigur sydd gyfwerth â 10 gwaith y cynnydd yn swm unrhyw fudd-daliadau diffiniedig

  yn ystod y cyfnodau cyfrannu i bensiwn a gwmpesir gan y Ffurflen Dreth hon. Unwaith eto ni fudd tâl treth yn codi os gwnaethoch ein hysbysu o'ch bwriad i ddibynnu ar ddiogelwch uwch o hawliau pensiwn
- mae'r dreth a godir ar daliadau anawdurdodedig yn gymwys pan delir taliad anawdurdodedig i chi neu ar eich cyfer chi. Os daeth y taliad o gynllun pensiwn a gofrestrwyd yn y DU, dylai gweinyddwr eich cynllun fod wedi dweud wrthych. Codir y tâl ar werth y taliad anawdurdodedig ar gyfradd o 40%. Os bydd taliadau o'r fath yn fwy na'r 'trothwy gordal', bydd treth bellach yn ddyledus ar y swm a delir ar gyfradd o 15%.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Gallai taliadau treth ar gynilion pensiwn fod yn gymwys hefyd (gyda rhai addasiadau) os ydych yn aelod o gynllun pensiwn tramor nad yw wedi ei gofrestru yn y DU. Ond gallwch anwybyddu blychau 5 i 14 os nad oes gennych gronfeydd sy'n derbyn rhyddhad treth yn y DU, neu gronfeydd a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn a gofrestrwyd yn y DU, mewn cynllun pensiwn tramor. Os oes gennych un o'r cronfeydd hynny, yna mae arweiniad ar p'un a oes angen i chi gofnodi unrhyw beth yn y blychau hyn ar gael yn Nhaflen Gymorth 346 *Pension savings tax charges – guidance for members of overseas pensions schemes that are not UK registered pension schemes*. Os nad ydych yn siŵr p'un a oes cronfeydd o'r fath gennych ewch i **www.hmrc.gov.uk** am fwy o wybodaeth.

Os ydych yn aelod o gynllun pensiwn tramor a hefyd yn aelod o gynllun pensiwn sydd wedi ei gofrestru yn y DU efallai y bydd angen y ddwy Daflen Gymorth arnoch

Cynlluniau osgoi treth a ddatgelwyd

Blwch 15 *Cyfeirnod y cynllun*

Nodwch gyfeirnod cynllun unrhyw gynllun neu drefniant a ddatgelwyd i Gyllid a Thollau EM a ddefnyddiwyd gennych i roi mantais treth neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol nawr neu yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwch wedi derbyn Cyfeirnod y cynllun gan hyrwyddwr y cynllun, ond mewn rhai achosion efallai y byddwch wedi derbyn y rhif yn uniongyrchol o Gyllid a Thollau EM.

Mae mantais yma'n golygu:
- rhyddhad, neu gynnydd mewn rhyddhad o, neu
- ad-daliad, neu gynnydd mewn ad-daliad, neu
- osgoi asesiad, neu o bosib osgoi asesiad i, neu
- osgoi neu ostwng tâl i, neu
- gohirio talu neu ddwyn ad-daliad ymlaen, neu
- osgoi unrhyw ymrwymiad i ddidynnu neu gyfrif am Dreth Incwm, Treth Enillion Cyfalaf neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os ydych yn gyflogwr ac mae'r trefniadau hysbysadwy o dan sylw yn drefniadau mewn cysylltiad â chyflogaeth, ni ddylech nodi cyfeirnod y cynllun yn y ffurflen dreth hon. Dylid hysbysu cyfeirnodau cynlluniau ar gyfer cynnyrch cyflogaeth ar wahân gan ddefnyddio ffurflen AAG4, sydd ar gael o **www.hmrc.gov.uk** neu o'r Llinell Gyswllt.

Os methwch â hysbysu Cyfeirnod cynllun ar gyfer cynllun neu drefniant, byddwch yn agored i gosb.

Blwch 16 *Y flwyddyn dreth y disgwylir i'r fantais godi*

Nodwch y flwyddyn y disgwyliwch i'r fantais dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol godi gyntaf. Gallai hyn fod y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 neu unrhyw ddyddiad yn y dyfodol. Gallai hyn fod yn flwyddyn gynharach os dyma'r tro cyntaf i chi ein hysbysu o gyfeirnod y cynllun. Hyd yn oed os ydych wedi nodi cyfeirnod y cynllun mewn ffurflen dreth flaenorol, rhaid i chi barhau i'w gofnodi tan i'r fantais treth ddod i ben (er enghraifft, tan fod y colledion a grëwyd gan y cynllun wedi ei defnyddio'n llwyr).

Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r rheolau ar gyfer datgelu cynlluniau osgoi treth yn **www.hmrc.gov.uk** (chwiliwch drwy ddefnyddio 'disclosure avoidance guidance') neu gallwch gysylltu â ni.